WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2018 - **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 903A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katrina Febry, Gareth Lewis, Gillian Gillett a Kathryn Watts o dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau llywodraethu ac yn datblygu trefniadau cynllunio strategol, ceir prinder capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol, ac mae angen dealltwriaeth well o gostau gwasanaethau.


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Y Cefndir 4

Y Prif Gasgliadau 5

Llywodraethu:
Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu, ac er bod systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol ar y cyfan, mae'r gwaith i gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau o hyd. 6

Cynllunio strategol:
Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o gynllunio'n strategol yn unol â'i gweledigaeth ar gyfer y tymor hir, ond ceir prinder capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol, ac mae angen dealltwriaeth well o gostau gwasanaethau. 13

Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau:
Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd, ac yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau i sicrhau arbedion ariannol, ond bu'r cynnydd yn araf o ran safoni rheolaeth gorfforaethol ar Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth. 18

Argymhellion 23

Atodiadau

Atodiad 1 - cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol 26

Atodiad 2 - Ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni 32

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith Asesiad Strwythuredig 2018 yr Archwilydd Cyffredinol yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth). Cyflawnwyd y gwaith er mwyn cynorthwyo i fodloni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, sef bod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Roedd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2018 yn cynnwys cyfweliadau â swyddogion ac Aelodau Annibynnol, arsylwi cyfarfodydd y bwrdd, pwyllgorau a rheolwyr ac adolygu dogfennau, perfformiad a data ariannol perthnasol. Cynhaliom hefyd arolwg o aelodau bwrdd ar draws holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Ymatebodd saith o'r deuddeg o aelodau ar fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

3 Mae gwaith asesu strwythuredig eleni yn dilyn themâu tebyg i waith blynyddoedd cynt, er inni ehangu'r cwmpas i gynnwys sylwebaeth ar drefniadau'n gysylltiedig â chaffael, rheoli asedau a gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r adroddiad yn rhannu ein canfyddiadau o dan dair thema - trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ei dull o gynllunio'n strategol a'r trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. I gloi'r adroddiad, nodir ein hargymhellion.

4 Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i argymhellion asesiad strwythuredig y flwyddyn gynt. Yn Atodiad 2 ceir ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion a ddeilliai o'n gwaith yn 2018.

# Y Cefndir

5 Yn ystod 2017-18, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gael ei monitro drwy drefniant rheolaidd o dan Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru. Unwaith eto, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb, gan adrodd gwarged o £49,000 ar ddiwedd y flwyddyn (mae a wnelo £28,000 o'r gwarged â chorff a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth). Llwyddodd hefyd i fodloni'r gofyniad i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2015-16 a 2017-18. Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2018-21 (CTCI) o fewn y terfyn amser a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

6 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddau wasanaeth arbenigol a reolir yn uniongyrchol (Is-adrannau). Mae rhaglenni trawsnewid yn cael eu cynnal ar y naill a'r llall er mwyn moderneiddio gwasanaethau. Y rhain yw:

- Canolfan Ganser Felindre (CGF) sy'n darparu gwasanaethau canser arbenigol anfeddygol ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC) yn cynnwys adeiladu ysbyty canser newydd ac is-uned radiotherapi er mwyn ymateb i alw cynyddol, yn ogystal â datblygu modelau gofal clinigol newydd er mwyn darparu gofal yn nes at adref.
- Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) sy'n casglu, prosesu a dosbarthu cydrannau gwaed i ysbytai ledled Cymru. Rhaglen drawsnewidiol yw Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 a ddyluniwyd er mwyn cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwireddu arbedion effeithlonrwydd.

7 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal tri sefydliad a chanddynt drefniadau cynnal amrywiol:

- Sefydlwyd Technoleg Iechyd Cymru (TIC) er mwyn hwyluso trefniadau prydlon i fabwysiadu technolegau iechyd sy'n glinigol effeithiol, ac yn gost-effeithiol, gan weithio gyda GIG Cymru, ond yn annibynnol ar y corff hwnnw.

- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau a swyddogaethau cymorth arbenigol ar draws GIG Cymru, mewn meysydd fel cyfleusterau ac ystadau, y gyfraith, risg a chaffael.
- Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gwybodaeth a rheoli gwybodaeth ledled Cymru mewn modd strategol.

8 Yn ein gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2017, gwelsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu raglenni newid uchelgeisiol ac wedi cyflwyno gwelliannau i'w threfniadau llywodraethu, er bod rhai heriau anodd yn dod i'r amlwg ynghyd â risgiau ariannol cynyddol. Gwelsom fod heriau ariannol wedi arwain at ymagwedd ymatebol at arbedion ariannol. Roedd angen gwelliannau clir mewn rhai meysydd llywodraethu ac o fewn y gweithlu, a bod gwendidau mewn perthnasoedd â chomisiynwyr.

9 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwebaeth ar agweddau allweddol ar gynnydd a materion sydd wedi codi ers ein hadolygiad asesu strwythuredig diwethaf. Gan hynny, dylid rhoi ystyriaeth i'n hadolygiad blaenorol wrth ddarllen yr adroddiad hwn. Ceir hyd i'r adolygiad hwnnw drwy ddilyn y ddolen gyswllt a ganlyn Ymddiriedolaeth GIG Felindre - Asesiad Strwythuredig 2017.

# Y Prif Gasgliadau

10 Dyma ein prif gasgliad: **Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau llywodraethu ac yn datblygu trefniadau cynllunio strategol, ceir prinder capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol, ac mae angen dealltwriaeth well o gostau gwasanaethau**. Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu, ac er bod systemau rheolaeth fewnol
  yn effeithiol ar y cyfan, bod y gwaith i gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau o hyd;
- fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o gynllunio’n strategol yn unol â'i gweledigaeth ar gyfer y tymor hir, ond bod prinder capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol, a bod angen dealltwriaeth well o gostau gwasanaethau; a
- bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd, ac yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau i sicrhau arbedion ariannol, ond bu'r cynnydd yn araf o ran safoni rheolaeth gorfforaethol ar Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth.

11 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi disgrifiad o gynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i gryfhau trefniadau llywodraethu ac o'r modd y mae trefniadau cynllunio strategol yn datblygu. Ceir ffactorau sy'n cyfrannu at y pwysau o flaen yr Ymddiriedolaeth o ran y capasiti a'r gallu i newid gwasanaethau, a'r angen i gryfhau'r trefniadau i ymgysylltu â'r staff a phartneriaid, er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu cyflawni ei chynlluniau strategol. Rydym hefyd yn dangos sut mae'r heriau ariannol o flaen yr Ymddiriedolaeth yn golygu bod angen dealltwriaeth well o gostau'r gwasanaethau a gyflenwir, a'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer arbedion ariannol.

12 Rhoddir ystyriaeth fanylach yn yr adrannau canlynol i'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn. Amlygir cynnydd yn erbyn argymhellion sy'n deillio o'n hasesiad strwythuredig o 2017 drwy gydol yr adroddiad, gan drawsgyfeirio i grynodeb cyffredinol o gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn Atodiad 1.

## Llywodraethu

13 Fel yn y blynyddoedd cynt, archwiliwyd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn rhan o'n Hasesiad Strwythuredig. Rydym yn cynnig sylwadau ar y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes, a'r graddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Buom hefyd yn edrych ar yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion y sefydliad. Rydym wedi defnyddio canlyniadau ein harolwg o aelodau'r Bwrdd er mwyn deall enghreifftiau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ac enghreifftiau lle gellid cryfhau'r trefniadau.

14 Gwelsom fod **yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu, ac er bod systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol ar y cyfan, bod y gwaith i gwblhau fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau o hyd**.

### Gweinyddu busnes yn effeithiol

15 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn ei drefnu ei hun er mwyn helpu i weinyddu busnes yn effeithiol. Gwelsom fod **gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau, ond bod lle i wella tryloywder o ran mynediad y cyhoedd at ddogfennau**.

16 Ar wahân i benodi Cadeirydd newydd ym mis Mai 2018, nid yw aelodaeth y Bwrdd wedi newid eleni. Cafodd rhaglen gynefino gynhwysfawr ei datblygu i'r Cadeirydd i'w cynorthwyo i ddeall yr Ymddiriedolaeth a'i threfniadau Llywodraethu. Roedd dau gontract ar gyfer aelodau annibynnol (AA) i fod i ddod i ben ym mis Hydref 2018 ac ym mis Mawrth 2019, ond fe'u hestynnwyd. Bydd estyn contractau'r AAau yn rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynlluniau recriwtio ar gyfer y ddau AA newydd yn ystod 2019, ar y cyd â'r Swyddfa Penodiadau Cyhoeddus.

17 Gwelsom fod y dull o gynnal Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol ar y cyfan. Dros gylch o 12 mis, trafodwyd amcanion strategol a gofynion statudol yng nghwmpas agenda llawn y bwrdd Mae rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn sy'n sicrhau bod cyfarfodydd bwrdd yn trafod digwyddiadau blynyddol allweddol, ac yn rhagweld penderfyniadau tyngedfennol, gan ystyried cylchoedd cynllunio sefydliadol a system gyfan.

18 Wrth arsylwi cyfarfodydd bwrdd yn 2018, gwelwyd lefelau craffu a herio da, ac ymatebion addas gan gyfarwyddwyr gweithredol. Yn ein harolwg o aelodau bwrdd (cyfradd ymateb o 58%), teimlai'r holl ymatebwyr fod y berthynas rhwng swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol yn adeiladol (nododd chwe ymatebydd fod hynny'n wir bob amser, ac un ymatebydd arall fod hynny'n wir gan amlaf). Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol o'i effeithiolrwydd wrth nodi ac ymdrin â meysydd i'w gwella.

19 Ar adegau yn 2018, roedd cyfarfodydd y Bwrdd yn hwyr yn gorffen er mwyn galluogi trafodaeth a her ddigonol. Hanner ffordd drwy 2018, cynyddodd yr Ymddiriedolaeth amlder a hyd seminarau sesiynau briffio preifat y bwrdd er mwyn rhoi mwy o amser i AAau ddeall y testunau a drafodir yng nghyfarfodydd cyhoeddus y bwrdd. Mae'r datblygiad hwn yn dechrau helpu'r Bwrdd drwy gynnig mwy o gyfleoedd ar y cyd i nodi risgiau a phryderon sy'n codi, a chyflawni ei swyddogaeth raffu mewn cyfarfodydd bwrdd cyhoeddus.

20 Roedd barn ymatebwyr i'n harolwg o aelodau bwrdd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch hyd agendâu'r bwrdd, ond cafwyd barn gymysg ynghylch y modd y caiff eitemau ar yr agenda eu blaenoriaethu, ac a oedd digon o amser mewn cyfarfodydd i ystyried yr holl eitemau[1].

[1]Mewn ymateb i'n harolwg o aelodau bwrdd, teimlai saith o ymatebwyr fod hyd yr agenda bob amser, neu fel arfer, yn ymarferol; dim ond dau ymatebwr a deimlai fod yr eitemau pwysicaf yn cael y flaenoriaeth ar yr agenda bob amser,

21 Er bod y rhan fwyaf o bapurau'n cael eu darparu bum niwrnod gwaith cyn cyfarfodydd, byddai papurau weithiau'n cael eu hepgor o'r bwndel a'u hanfon allan yn ddiweddarach. Wrth eu cyfweld, dywedodd aelodau bwrdd wrthym nad oedd digon o amser i adolygu'r papurau hynny a oedd yn cael eu hanfon allan yn hwyr. Yn ôl Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, dylid anfon agenda a chasgliad llawn o bapurau ategol at aelodau bwrdd ddeng niwrnod o leiaf cyn cyfarfod o'r bwrdd. Mae'r Cadeirydd yn bwriadu pennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno papurau'r bwrdd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad deng niwrnod.

22 Yn 2018, ffurfiodd yr Ymddiriedolaeth bwyllgor newydd i gefnogi'r Bwrdd wrth graffu ar yr ysbyty canser newydd. Yn ogystal â hynny, mae angen i'r Ymddiriedolaeth sefydlu Pwyllgor Partneriaeth Academaidd fel un o'r gofynion yn gysylltiedig â'r statws Prifysgol a gafodd yn ddiweddar. Nododd y Cadeirydd nad oedd y capasiti cyfredol o ran AAau yn ddigon i ymdrin â'r pwyllgorau newydd, ac i graffu'n ddigonol ar faterion yr Ymddiriedolaeth. Penodwyd Is-gadeirydd newydd o'r garfan bresennol o AAau ym mis Tachwedd 2018, gan arwain at gynyddu diwrnodiau gwaith yr Is-gadeirydd a benodwyd o bedwar i ddeg diwrnod y mis. Wrth gyfweld, dywedodd rhai AAau eu bod yn gweithio mwy o oriau na'r hyn a oedd wedi'i nodi yn eu contract. Dylai penodi Is-gadeirydd gyfrannu rhywfaint at unioni'r diffyg cydbwysedd hwn.

23 Mae'r strwythur pwyllgorau cyfredol yn adlewyrchu Rheolau Sefydlog, ac mae cydbwysedd y gwaith a'r ffocws rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau yn briodol. Bydd angen diweddaru Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i gynnwys cylch gorchwyl y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd. Mae tîm llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn rheoli dogfen dracio er mwyn monitro a helpu i ysgogi hunanasesiad blynyddol y pwyllgorau ac adolygiad blynyddol o'u cylchoedd gorchwyl, ac i helpu pwyllgorau i gynllunio ei cylch busnes. Wrth arsylwi pwyllgorau, gwelsom fod lefel y craffu a'r her yn dda ar y cyfan.

24 Mae gan y Pwyllgor Archwilio raglen waith fanwl, sy'n cynnwys adolygiadau rheolaidd o Gofrestrau Buddiannau, Derbyn Rhoddion a Lletygarwch a gwaith Archwilio Mewnol a'r Gwasanaeth Twyll Lleol.

25 Ceir llifoedd clir o sicrwydd a gwybodaeth rhwng y pwyllgorau a'r Bwrdd, gyda phob pwyllgor yn llunio adroddiad ar y prif bwyntiau yn dilyn pob pwyllgor, sy'n rhannu'r materion i gategorïau coch, ambr a gwyrdd, yn dibynnu ar eu statws uwchgyfeirio, ac adroddiad blynyddol. Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â'r Cadeiryddion pwyllgor bob chwe wythnos i gynnal trafodaeth fanylach ar unrhyw faterion a godir mewn cyfarfodydd pwyllgor.

26 Wrth adolygu, gwelsom fod adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cefnogi penderfyniadau effeithiol drwy roi esboniad da o'r eitem ac o'r cynnydd hyd yma, ac yn nodi goblygiadau penderfyniadau. Fodd bynnag, mae manylder yr asesiad o effeithiau posibl ar agweddau ariannol, ansawdd a diogelwch, cyrraedd safonau gofal iechyd, gofynion cyfreithiol a'r goblygiadau o ran cydraddoldeb yn amrywio yn y papurau cyflwyno. Mae lle i ddarparu mwy o wybodaeth mewn papurau cyflwyno ategol i gefnogi dealltwriaeth well o'r modd y mae'r mater dan sylw yn gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth, a'r risg o beidio â'u cyflawni.

27 Yn 2016, argymhellwyd y dylai'r Bwrdd fyfyrio ar ei ddefnydd o gyfarfodydd pwyllgor preifat, ac asesu a oedd rhai eitemau ar yr agenda yn fwy priodol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Ym mis Gorffennaf 2018, cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o eitemau agenda a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd preifat y Bwrdd a chyfarfodydd pwyllgor yn y 12 mis blaenorol. Gwelwyd y bu'n briodol ystyried pob eitem, namyn un, yn breifat (gweler A4 2016, Atodiad 1). Drwy ein gwaith maes, fodd bynnag, gwelwyd bod y Bwrdd wedi nodi yn ystod cyfarfod bwrdd Medi 2018 y gallai dwy eitem a drafodwyd yn breifat fod wedi cael eu trafod yn y sesiwn

neu gan amlaf; ac roedd pedwar ymatebwr yn teimlo bod ganddynt bob amser, neu fel arfer, ddigon o amser i ystyried yr holl eitemau ar yr agenda.

gyhoeddus. Mae angen i'r Bwrdd gynnal adolygiad parhaus o eitemau ar yr agenda er mwyn ystyried a ddylid eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd cyhoeddus y bwrdd.

28 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2016, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru 2016 ar adroddiadau cyhoeddus tryloyw. Mae'r Cylchlythyr Iechyd yn darparu rhestr o'r dogfennau y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael ar wefannau cyrff iechyd. Er inni weld cynnydd wrth ddiweddaru'r wefan yn Asesiad Strwythuredig 2017, gwelwyd yn ein hadolygiad o 2018 fod nifer sylweddol o ddogfennau'n dal i fod ar goll (gweler A3 2016, Atodiad 1). Cyflwynir argymhelliad newydd y dylid cadw'r wefan yn gyfredol drwy gynnwys y dogfennau gofynnol.

29 Caiff papurau bwrdd eu hychwanegu at y wefan ar ôl cyfarfodydd y bwrdd. Yn ôl Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol darparu'r agenda a phapurau ategol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar wefan yr Ymddiriedolaeth, ddeng diwrnod o leiaf cyn cyfarfodydd y bwrdd. Ym mharagraff 21, amlygwyd bod y Cadeirydd yn bwriadu pennu dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno papurau bwrdd. Dylai hyn alluogi'r Ymddiriedolaeth i gydymffurfio â'r gofyniad i gyhoeddi papurau'r Bwrdd ddeng diwrnod cyn cyfarfodydd y bwrdd.

## Rheoli risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol

30 Buom yn edrych ar ymagwedd y Bwrdd at roi sicrwydd iddo ei hun fod risgiau i gyflawni blaenoriaethau wedi'u rheoli'n dda. Gwelsom fod gwaith yn **parhau i ddatblygu fframwaith sicrwydd bwrdd a phrosesau rheoli risg**.

31 Mae'r tîm llywodraethu corfforaethol yn arwain y gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB), a ddechreuwyd ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y tîm yn anelu i gyflwyno FfSB wedi'i lenwi erbyn mis Ebrill 2018, ond roedd y gwaith ar ei hôl hi, a'r dyddiad terfyn wedi'i ymestyn i fis Ebrill 2019.

32 Wrth ddatblygu'r templed ar gyfer FfSB, bu'r Ymddiriedolaeth yn edrych ar fframweithiau a ddefnyddir gan sefydliadau eraill. Cytunodd y Bwrdd Rheoli ar dempled y FfSB ym mis Gorffennaf 2018, ond nid yw'r templed wedi'i lenwi eto. Ar gyfer pob amcan strategol, mae'r FfSB yn dangos y nod, y risgiau, y rheolaethau sydd eu hangen, awydd yr Ymddiriedolaeth am risg. Yn ogystal â hyn, darperir y sgôr risg gyfredol, a'r sgôr risg targed, a nodir swyddog gweithredol cyfrifol a threfniadau pwyllgor craffu.

33 Mae'r Datganiad Awydd am Risg, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2017, ac a adolygwyd ym mis Medi 2018, yn nodi awydd yr Ymddiriedolaeth am risg mewn naw maes[2]. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Datganiad Awydd am Risg i gytuno ar y lefel risg dderbyniol, a'r lefel risg darged ar gyfer pob amcan strategol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn nodi'r awydd am risg ar gyfer pob amcan strategol yn gyson.

34 Mae'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol y mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu arnynt wedi cael eu mapio i gyd-fynd â swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth. Rhannodd yr Ymddiriedolaeth ganlyniad yr Ymarfer Mapio Sicrwydd â'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2018. Mae angen gwneud gwaith pellach i fapio'r ffynonellau sicrwydd â phob amcan strategol, ac er mwyn canfod a oes unrhyw fylchau o ran sicrwydd ac, os felly, sut yr eir i'r afael â'r bylchau hyn. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd sicrhau bod y FfSB yn goleuo a chefnogi agenda a chynllun gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau.

[2]Dyma'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Awydd am Risg: ansawdd, diogelwch, cydymffurfio, ymchwil a datblygu, enw da, perfformiad a chynaliadwyedd gwasanaethau, cynaliadwyedd ariannol, y gweithlu a phartneriaethau.

35 Buom yn asesu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth ymdrin â'n hargymhelliad yn 2017 i gynyddu perchnogaeth, ymglymiad ac ymwybyddiaeth y Bwrdd o ran yr FfSB. Er bod ymwybyddiaeth y Bwrdd o'r FfSB a'i ymglymiad yn natblygiad y Fframwaith wedi cynyddu yn ystod 2018, mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn 'berchen' ar yr FfSB, a'i fod yn fodlon â'i ddatblygiad hyd yma, ei gyfeiriad, a'r modd y caiff y FfSB ei gymhwyso a'i adolygu. Rhoddir crynodeb o gynnydd yn A7 2017, yn Atodiad 1.

36 Cafodd y Strategaeth Rheoli Risg ei diweddaru ddiwethaf ym mis Medi 2015, ac yr oedd i fod i gael ei hadolygu ym mis Medi 2018. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn bwriadu diweddaru'r Strategaeth yn 2019. Bydd angen i'r Strategaeth fod yn ystyriol o'r newidiadau a wnaed i'r fframwaith rheoli risg.

37 Nodir risgiau gweithredol ar y gofrestr risg gorfforaethol, ac fe'u rheolir drwy fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth. Mae gan yr holl adrannau a'r is-adrannau brosesau er mwyn asesu risgiau gweithredol, ac mae cofrestrau risg yn cael eu cynnal yn weithredol. Cynhelir asesiadau risg er mwyn asesu effaith risgiau ar y gwasanaeth a rhanddeiliaid. Bydd timau uwch reoli o fewn yr adrannau/is-adrannau yn adolygu'r risgiau'n rheolaidd. Caiff y risgiau a chanddynt y sgorau uchaf eu huwchgyfeirio i'w hadolygu gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hychwanegu at gofrestr risg gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, lle tybir bod hynny'n briodol. Caiff risgiau corfforaethol eu rhannu i bwyllgorau bwrdd penodol i ddibenion craffu.

38 Cyfeirir cofrestr risg yr Ymddiriedolaeth i sylw holl bwyllgorau'r Bwrdd i ddibenion craffu, ac er mwyn canfod mesurau rheoli ychwanegol. Mae'r pwyllgorau'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i leihau'r risg, bod rheolaethau effeithiol ar waith a bod y risg yn cael ei rheoli hyd at lefel oddefadwy.

39 Yn 2017, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei chofrestr risg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys risgiau'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â'r prif risgiau gweithredol. Argymhellwyd hefyd y dylai'r adolygiad gynnwys elfen ôl-weithredol, er mwyn gweld a ellid, neu a ddylid, bod wedi disgrifio risgiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn yn fwy effeithiol ar y gofrestr.

40 Mae gwelliannau i'r gofrestr risg yn 2018 yn cynnwys nodi sgôr awydd am risg ar gyfer pob risg (i gydweddu â'r Datganiad Awydd am Risg) a rhoi esboniad cliriach o'r camau a gymerwyd/y mae angen eu cymryd i liniaru risg, a'r trefniadau uwchgyfeirio. Yn y cyfweliad, dywedodd Aelodau Annibynnol wrthym eu bod yn teimlo bod mwy o ffocws i'r broses o uwchgyfeirio risgiau ac i drafodaethau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ar y gofrestr risg. Er inni gael gwybod bod yr ôl-adolygiad risg wedi'i gwblhau, wrth lunio'r adroddiad hwn, nid oedd y Bwrdd Rheoli Gweithredol wedi trafod y canlyniadau, ac nid ydym wedi'u gweld. Rhoddir crynodeb o gynnydd er mwyn ymdrin â'n hargymhelliad yn A8 2017, Atodiad 1.

41 Yn 2016, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth safoni ffurf ei chofrestrau risg gweithredol, gan sicrhau bod arferion da o bob cofrestr yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad. Ar y pryd, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth beidio safoni ei chofrestrau risg gan nad oedd o'r farn ei bod hi'n briodol defnyddio un ymagwedd gyffredin i bawb. Er ei bod yn parhau i fod o'r farn hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnal adolygiad er mwyn canfod pa elfennau ar gofrestr newydd yr Ymddiriedolaeth y dylid eu hymgorffori yng nghofrestrau risg tanategol adrannau, is-adrannau a chyrff a gynhelir.

42 Mae trefn yr Ymddiriedolaeth ar gyfer craffu ar drefniadau rheoli risg a chofrestrau risg y cyrff a gynhelir yn amrywio. Cyflwynir trefniadau craffu ar gyfer PCGC bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio PCGC, tra bo Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn craffu ar y trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a TIC. Yn ogystal â hynny, mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pwyllgor Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn gwneud gwaith craffu ychwanegol ar gofrestr risg Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru ac yn tracio camau gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion archwilio.

43 Ceir gwahanol drefniadau cynnal ar gyfer pob un o'r tri chorff a gynhelir. Mae'r trefniadau cynnal a chyfrifoldebau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer TIC a PCGC yn symlach na'r trefniadau ar gyfer

Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru. Y llynedd, tynnwyd sylw at y cymhlethdod a'r diffyg eglurder yn gysylltiedig â threfniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru.

44 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 'Cymru Iachach'. Nodwyd yn y cynllun fod angen cynnydd sylweddol i'r buddsoddiad mewn seilwaith digidol a thechnoleg, ac yng nghapasiti'r gweithlu. Nodai hefyd y byddai adolygiad gwybodeg annibynnol yn cael ei gynnal gan Local Partnerships LLP erbyn diwedd 2018, er mwyn ystyried sut y dylid trefnu a chyflenwi gwasanaethau gwybodeg yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried y materion a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Systemau gwybodeg yn GIG Cymru[3], ac adroddiad dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

45 Er nad yw'n glir beth fydd y goblygiadau o ran trefniadau llywodraethu a chynnal Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn y dyfodol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i egluro a gwella'r trefniadau cyfredol, ac rydym wedi nodi'r rhain yn A6 2017, Atodiad 1, Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu effeithiolrwydd y gofynion sicrwydd diwygiedig yn nhymor y gwanwyn 2019, yn unol ag unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad gwybodeg annibynnol, ac yn dibynnu ar y newidiadau hynny hefyd.

## Ymwreiddio system gadarn ar gyfer sicrwydd

46 Buom hefyd yn archwilio a oes gan yr Ymddiriedolaeth system effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol i gefnogi sicrwydd y bwrdd. Gwelsom fod rheolaethau mewnol **yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol ar y cyfan a bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi gwella, ond bod bylchau yn llif yr wybodaeth sy'n gysylltiedig ag archwilio clinigol**.

47 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o'i Rheolau Sefydlog, a'i threfniadau ar gyfer Cadw a Dirprwyo Pwerau ym mis Mai 2018. Mae'r Rheolau Sefydlog yn seiliedig ar y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru i Ymddiriedolaethau'r GIG, ac yn nodi'r modd y mae'r sefydliad yn cynnal ei fusnes. Mae'r Rheolau Sefydlog yn cynnwys Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth a Rheolau Sefydlog Pwyllgor PCGC, ac yn rhestru penderfyniadau a gadwir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac i swyddogion ac eraill.

48 Roedd ein hadolygiad yn ystyried y fframwaith archwilio clinigol. Yng Nghanolfan Ganser Felindre, caiff cynllun gwaith archwilio clinigol ei greu'n flynyddol gan y Tîm Archwilio Clinigol, mewn ymgynghoriad â thimau adrannol. Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith archwilio i gefnogi rheoli risg, gwella gwasanaethau ac ymdrin â gofynion archwilio clinigol cenedlaethol. Mae'r cyfrifoldebau gweithredol ar gyfer archwilio clinigol yn glir a phriodol. Mae'r Pwyllgor Llywio Archwilio Ansawdd yn goruchwylio gwaith archwilio clinigol ac yn derbyn adroddiadau cynnydd. Mae adroddiad archwilio clinigol blynyddol yn rhoi crynodeb o weithgarwch archwilio a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn, ond nid yw'r adroddiad yn rhoi disgrifiad digonol o ganlyniadau archwilio, yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau nac yn nodi unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiadau ar brif bwyntiau pob Pwyllgor Llywio Archwilio Ansawdd, yn ogystal ag adroddiad archwilio clinigol blynyddol CGF.

49 Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) yn gweithredu oddi mewn i fframwaith System Rheoli Ansawdd. Mae'r fframwaith wedi'i ddylunio i sicrhau bod prosesau a gweithrediadau yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae GGC cael ei archwilio'n rheolaidd gan reoleiddiwr allanol, sef Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a'r Awdurdod Meinweoedd Dynol). Mae GGC yn datblygu cynllun archwilio blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau diogelwch. Bydd unrhyw

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, Systemau gwybodeg yn GIG Cymru, Ionawr 2018

adroddiadau archwilio yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Ansawdd GGC, ac adroddir bob chwarter am unrhyw broblemau neu bryderon wrth Fwrdd Systemau Ansawdd, Safonau a Llywodraethu GGC. Lluniodd GGC Adroddiad Diweddaru Systemau Ansawdd ac Achrediad Rheoleiddio. Yn yr Adroddiad Diweddaru nodir y canlyniadau a'r camau sy'n deillio o adolygiadau allanol a diweddariadau am feysydd fel iechyd a diogelwch, pryderon ac adweithiau niweidiol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth am waith archwilio lleol wedi'i chyfyngu i adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y cynllun, yn hytrach na nodi'r canlyniadau a'r camau sy'n deillio o hynny. Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth sy'n derbyn yr Adroddiad Diweddaru. Mae Cyfarwyddwr GGC yn gyfrifol am System Rheoli Ansawdd GGC. Yn ôl ein hasesiad, mae cyfrifoldebau gweithredol y cyfarwyddwr meddygol dros archwiliadau clinigol yn glir yng Nghanolfan Ganser Felindre, ond nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd yn achos GGC.

50 Yn ôl Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am sicrhau swyddogaeth archwilio clinigol effeithiol er mwyn bodloni safonau gofynnol, cymeradwyo cynlluniau archwilio a monitro canlyniadau archwilio gan gynnwys cynnydd cynlluniau gweithredu o ran ymdrin â chanfyddiadau mewn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Wrth adolygu papurau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ni chafwyd hyd i unrhyw drafodaethau ar gynlluniau archwilio drafft ar gyfer y naill Is-adran na'r llall. Yn ein hadolygiad, nodwyd bod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn adroddiadau rheoleiddwyr allanol a chynlluniau gweithredu er mwyn ymdrin ag argymhellion, ond nad oes gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch draciwr archwilio ffurfiol i fonitro cynnydd wrth weithredu'r camau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud gwaith craffu ychwanegol ar waith archwilio clinigol, a'i rôl yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y swyddogaeth archwilio clinigol yn effeithiol. Fodd bynnag, wrth adolygu agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, gwelsom ei fod wedi derbyn adroddiad archwilio blynyddol CGF, ond nad oedd wedi derbyn unrhyw adroddiadau archwilio ar gyfer GGC yn y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'n glir sut mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gysylltiedig ag archwilio clinigol.

51 Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn adroddiadau ar bryderon cleifion (cwynion, digwyddiadau a hawliadau), a dangosyddion ansawdd cleifion (fel briwiau pwyso, gwallau wrth reoli meddyginiaethau a chwympiadau ymhlith cleifion) a'r graddau y cydymffurfir â hysbysiadau a rhybuddion ynghylch diogelwch cleifion. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn adolygu systemau i fesur ansawdd fel bo modd dadansoddi a thriongli'r data ansawdd yn well, a chryfhau'r gwersi a ddysgir fel sefydliad yn sgil pryderon a digwyddiadau.

52 Ceir ymagwedd glir, resymegol a ffurfiol at reoli perfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu ystod o wybodaeth am berfformiad i'r Bwrdd yn rheolaidd, a hefyd i'r Pwyllgorau Perfformiad a Chynllunio ac Ansawdd a Diogelwch. Wrth asesu adroddiadau ar berfformiad, gwelsom eu bod yn cynnwys y dangosyddion perfformiad cywir ar y cyfan, a'u bod yn tynnu sylw aelodau'r Bwrdd at faterion perfformiad. Fodd bynnag, mae lle i wella'r naratif a'r dull o gyflwyno'r wybodaeth fel ei bod hi'n haws dehongli'r wybodaeth a gyflwynir. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn bwrw ymlaen â gwaith i wella'r naratif mewn adroddiadau ar berfformiad, fel ei bod hi'n haws i rai heb gefndir clinigol eu deall, a gwaith i roi esboniad gwell o berfformiad yn erbyn targedau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth uchelgais i fuddsoddi yn y capasiti adrodd gwybodaeth, gyda ffocws ar ddatblygu porthol gwybodaeth ar-lein a dangosfyrddau perfformiad a gweithgarwch. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu rhoi amserlen inni ar gyfer y gwaith.

53 Mae dull y Pwyllgor Archwilio o dracio cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol ac allanol (Swyddfa Archwilio Cymru yn unig) wedi'i hen sefydlu. Mae'r traciwr yn amlygu camau nad ydynt wedi cael eu gweithredu ynghyd a'r raddfa amser gytunedig. Mae'n disgrifio'r cynnydd hyd yma, y rhesymau dros beidio â bodloni'r dyddiad targed a'r camau sydd ar ôl i'w cwblhau. Ystyrir cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio sydd wedi pasio eu dyddiad targed ym mhob cyfarfod, gan herio cyflymder y cynnydd. Ar adegau,

bydd y Pwyllgor yn gwahodd swyddogion i baratoi a chyflwyno adroddiadau manylach pan fydd camau i ymdrin â'r argymhellion yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Pwyllgor Archwilio i herio uwch reolwyr pan na chafwyd digon o gynnydd yn ystod 2018. Yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref 2018, amlygwyd bod camau priodol wedi'u cymryd er mwyn ymdrin â'r camau lle cafwyd y mwyaf o oedi dros gyfnod yr haf. Fodd bynnag, er bod yn rhaid i swyddogion wneud cais i estyn dyddiadau targed, nid oes gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw fecanwaith i'w fodloni ei hun fod camau a gymerwyd i gau argymhelliad yn foddhaol neu'n barhaol, ac eithrio pan fydd archwiliad dilynol yn cael ei gynnal.

54 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn yr ymarfer, ac mae'n orfodol iddi wneud hynny. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd 4,411 o barau data, ac ystyriwyd bod 416 ohonynt yn rhai risg uchel. Yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol 2016-17, adroddwyd nad oedd yr Ymddiriedolaeth ond wedi adolygu un pâr data, ar 20 Tachwedd 2017, ac nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI yn rhan o'i threfniadau i atal a chanfod twyll. Ar 12 Tachwedd 2018, mae rhaglen we'r NFI yn cofnodi bod 289 o barau data wedi cael eu hadolygu (pob un ohonynt yn rhai risg uchel). Bu rhywfaint o gynnydd, ond rydym yn dal o'r farn nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r NFI. Rydym yn arbennig o bryderus nad oes tystiolaeth bod rhai parau risg uchel wedi'u hadolygu. Ar ben hynny, mewn llawer o achosion lle cofnodwyd bod parau data wedi'u hadolygu, nid oes digon o wybodaeth wedi'i chofnodi ar raglen y we i ddangos sut yr aethpwyd ati i adolygu parau. Ceir enghreifftiau hefyd lle bo rhaglen we'r NFI yn cofnodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn ymholiadau oddi wrth gyrff eraill y GIG ynghylch parau data, ond nid oes unrhyw gofnod o fod wedi ymateb i'r ymholiadau hynny.

55 Mae'r Ymddiriedolaeth i fod i ddarparu data ar gyfer yr ymarfer NFI nesaf (NFI 2018-19) ym mis Hydref 2018. Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen.

56 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol er mwyn paratoi am ofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ac ymateb i'r gofynion hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddaru amryw o bolisïau'r Ymddiriedolaeth (a chyrff a gynhelir) yn gysylltiedig â llywodraethu gwybodaeth ac wedi cymeradwyo mabwysiadu polisïau Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth Cymru Gyfan. Mae hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth wedi cael ei ddiweddaru a'i ddarparu i'r rhan fwyaf o'r staff. Ym mis Mai 2018, roedd 88% o staff GGC a 70% o staff CGF wedi cwblhau'r targed, ond 95% yw'r targed. Yn ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017, argymhellwyd y dylai'r Ymddiriedolaeth lunio cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data er mwyn sicrhau ei bod yn tracio'r modd y mae'n rhannu gwybodaeth bersonol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhelliad hwn yn A9 2018, Atodiad 1.

57 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cwblhau Strategaeth Gwella Seiberddiogelwch er mwyn nodi a gweithredu camau i liniaru'r risgiau a achosir yn sgil bygythiadau seiberddiogelwch, ac er mwyn bod yn gyson â chanllawiau arfer gorau. Bydd hefyd yn cyfnerthu'r argymhellion sy'n weddill o'r adolygiad Archwilio Mewnol o seiberddiogelwch (Awst 2017) a'r asesiad seiberddiogelwch allanol a gynhaliwyd gan Stratia Consulting (Hydref 2017) ac yn anelu i ddatrys yr argymhellion hynny.

58 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg a Rheoli Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch risgiau a pherfformiad llywodraethu gwybodaeth, ac yn tracio cynnydd wrth ymateb i argymhellion mewn adroddiadau mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried cofrestr risg Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru. Mae agenda'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg a Rheoli Gwybodaeth yn trafod eitemau ar yr agenda yn nhrefn pwysigrwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried rhannu agenda'r pwyllgor yn

ddau hanner, y naill i drafod eitemau llywodraethu gwybodaeth a'r llall i drafod TGCh. Byddai hyn o gymorth i sicrhau nad oes angen i staff yr Ymddiriedolaeth ond bod yn bresennol am ran o'r cyfarfod. Byddai hyn yn golygu gwneud defnydd mwy effeithlon o amser y staff ac o gymorth i wella presenoldeb. Nodwn na fynychodd Gwarcheidwad Caldicott yr Ymddiriedolaeth ond un o bedwar cyfarfod rhwng mis Medi 2017 a mis Mai 2018.

## Cynllunio strategol

59 Wrth ein gwaith, buom yn archwilio'r modd y mae'r Bwrdd yn pennu amcanion strategol ar gyfer y sefydliad. Buom yn asesu'r graddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei hamcanion, gan ddefnyddio adnoddau sydd ganddi, neu y gall eu darparu. Gofynnwyd hefyd a oedd digon o gysylltiadau rhwng cynlluniau, yn allanol ac yn fewnol, ac a oeddent yn seiliedig ar wybodaeth dda, yn realistig ac yn cynnwys terfynau amser. Yn olaf, roeddem am wybod a oedd yr Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd y cynlluniau hyn yn effeithiol.

60 Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o gynllunio'n strategol yn unol â'i gweledigaeth ar gyfer y tymor hir, ond bod prinder capasiti i gyflawni a rheoli newid strategol, a bod angen dealltwriaeth well o gostau gwasanaethau**.

### Pennu'r cyfeiriad strategol

61 Buom yn edrych ar y modd y mae'r Bwrdd yn mynd ati i bennu ei flaenoriaethau a'u nodi mewn CTCI. Gwelsom fod y **Bwrdd yn gwneud cynnydd da wrth adolygu ei gyfeiriad strategol a'i weledigaeth hirdymor**.

62 Mae CTCI 2018-21 yn nodi gweledigaeth a phum nod yr Ymddiriedolaeth, sydd wedi aros yr un peth dros y chwe blynedd diwethaf. Mae amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth wedi'u diffinio'n glir ac yn gyson â'r nodau a'r weledigaeth.

63 Yn ystod 2018, gwnaeth y Bwrdd gynnydd da wrth adolygu gyfeiriad strategol a'i weledigaeth hirdymor ar gyfer y deng mlynedd nesaf, ac wrth bennu a oes angen unrhyw newidiadau i adlewyrchu cyfeiriad rhaglenni trawsnewid yr Ymddiriedolaeth. Canolbwyntiwyd hefyd ar y canlynol:

- gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru am system iechyd a gofal cymdeithasol integredig, Cymru Iachach, a rhan yr Ymddiriedolaeth yn hynny, y gwasanaethau y dylai'r Ymddiriedolaeth eu darparu yn y dyfodol a rhan yr Ymddiriedolaeth mewn gwaith iechyd cyhoeddus ac atal;
- lluniodd yr Ymddiriedolaeth bapur o dan y teitl, Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol, sy'n archwilio cwestiynau sylfaenol ynghylch cyfeiriad yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol a'r cyfyngiadau ar arian a'r gweithlu a allai effeithio ar ddatblygiad strategol; a
- rôl yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol mewn perthynas â chyrff sy'n cael eu cynnal.

64 Yn ein harolwg o aelodau Bwrdd a'n cyfweliadau â hwy[4] , nodwyd bod aelodau Bwrdd ar y cyfan yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y broses o bennu cyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r weledigaeth hirdymor fod yn ysgogiad pwysig ar gyfer cynlluniau'r Ymddiriedolaeth a bydd fersiynau o'r CTCI a gyhoeddir yn y dyfodol yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni nodau hirdymor.

[4]Mewn ymateb i gwestiwn ein harolwg 'i ba raddau y mae'r Bwrdd yn ymwneud â phennu'r weledigaeth ar gyfer y sefydliad', dywedodd pum ymatebwr 'bob tro', a dau arall 'gan amlaf'.

65 Comisiynwyd ac ariannwyd GGC gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru[5]. Fel darparydd gwasanaeth a gomisiynir, mae CGF yn derbyn ei chyllid oddi wrth y bwrdd iechyd sy'n ei comisiynu, a gall gweithredoedd y bwrdd iechyd hwnnw amharu ar allu'r Ganolfan i gynllunio ar gyfer y tymor hwy. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal deialog reolaidd ac effeithiol â'i chomisiynwyr er mwyn sicrhau y gall gyflawni'r nodau a bennwyd yn ei gweledigaeth hirdymor.

66 Mae saith nod llesiant yr Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd ag un neu fwy o Nodau Llesiant Cymru. Mae amcanion strategol cyfredol yr Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd yn fras ag amcanion llesiant yr Ymddiriedolaeth. Serch hynny, bydd angen iddi sicrhau bod yr amcanion llesiant wedi'u hymwreiddio'n llawn er mwyn cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy, wrth adolygu'r cyfeiriad strategol a'r amcanion strategol.

## Datblygu cynlluniau strategol

67 Buom yn ystyried dull yr Ymddiriedolaeth o ddatblygu'r cynllun strategol. Gwelsom fod **yr Ymddiriedolaeth yn gwella ei dull o gynllunio'n strategol, gan ddefnyddio modelau galw a chapsiti i gefnogi hynny, ond mae angen dealltwriaeth well o gost gwasanaethau**.

68 Mae penaethiaid gwasanaeth is-adrannol yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu CTCI yr Ymddiriedolaeth, gyda chefnogaeth briodol gan staff arbenigol ym maes cynllunio ariannol a'r gweithlu. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Trefniadol yn ymwneud yn agos â'r gwaith o ddatblygu'r CTCI o gychwyn y broses gynllunio er mwyn sicrhau ymagwedd gynllunio integredig. Ym mis Mai 2018, dyfarnodd adroddiad Archwilio Mewnol sgôr 'sicrwydd rhesymol' am effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol i reoli'r risgiau'n gysylltiedig â chyflawni a monitro CTCI 2018-21. Tynnai'r adroddiad sylw at amserlenni a nodai'r camau yr oedd angen eu cymryd, gan bwy ac erbyn pryd, er mwyn sicrhau bod CTCI yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gyflwyno mewn pryd. Yn ein cyfweliadau, nodwyd bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad yn gysylltiedig â gwella trefniadau i adolygu CTCIau yn y dyfodol, drwy gynyddu'r defnydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad, a phwyllgorau eraill lle bo'n briodol, i adolygu drafftiau o'r CTCI yn y dyfodol.

69 Cymeradwyodd y Bwrdd ddrafft o CTCI 2018-21 ym mis Ionawr ar ôl adolygu a dylanwadu ar yr egin-ddrafft a luniwyd drwy sesiynau datblygu'r bwrdd a chyfarfodydd Bwrdd. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth y CTCI o fewn y terfyn amser a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, a sicrhaodd gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar ei gyfer.

70 Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn dechrau'r broses o ddatblygu'r CTCI ar gyfer y cyfnod 2019-22, gan adeiladu ar ddadansoddiad o'r galw am wasanaethau. Mae canllawiau newydd wedi cael eu datblygu sy'n pwysleisio'r angen is-adrannau nodi'r capasiti sydd ei angen er mwyn bodloni'r galw o fewn adnoddau presennol, nodi bylchau mewn capasiti neu adnoddau, a'r modd y gellir cau'r bylchau hynny, er enghraifft drwy ddefnyddio ffyrdd gwahanol o weithio neu drwy newid y gymysgedd o sgiliau. Darparwyd hyfforddiant i'r staff ar gyfrifo data galw a chostau i gefnogi cynlluniau gwasanaeth y CTCI.

71 Mae CTCI 2018-21 yr Ymddiriedolaeth wedi'i rannu'n dair adran, CGF, GGC a swyddogaethau galluogi corfforaethol. Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar strategaethau clinigol ar wahân ar gyfer gwasanaethau canser a gwasanaethau gwaed. Mae'r CTCI yn cynnwys y blaenoriaethau strategol penodol a bennwyd ar gyfer yr is-adrannau, pump i CGF, ac wyth i Wasanaeth Gwaed Cymru. Ceir nodau strategol yn sail i bob blaenoriaeth

[5]Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gyfrifol am gydgynllunio Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol ar ran Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

strategol, ynghyd â disgrifiadau o'r camau a gymerir ym mhob blwyddyn o'r CTCI i gefnogi eu cyflawniad a chanfod unrhyw gyfyngiadau ariannol.

72 Canfu ein hasesiad fod adran CGF yn y CTCI yn pennu'r trywydd angenrheidiol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn cefnogi cyflawniad strategaeth glinigol deng mlynedd CGF. Mae'r CTCI yn canolbwyntio ar ymateb i alw cynyddol, gan sicrhau canlyniadau gwell i gleifion a newid y model clinigol er mwyn darparu mwy o ofal yn nes at adref.

73 Yn yr un modd, gwelsom fod adran GGC yn y CTCI yn nodi llwybr i gyflawni strategaeth glinigol GGC (Cynllun Gwaed GIG Cymru) dros dair blynedd, a'r gwelliannau i'r gwasanaeth a nodwyd yn rhaglen drawsnewid Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020. Mae'r gwelliannau a geisir yn cysoni gwasanaethau ledled Cymru, yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn gysylltiedig â phrosesu a dosbarthu cydrannau gwaed i ysbytai, ac yn gwella ymgysylltiad â rhoddwyr.

74 Mae CTCI 2018-21 yn cynnwys Cynllun Ariannol yr Ymddiriedolaeth sy'n rhoi crynodeb o'r rhagolygon a'r risgiau ariannol. Mae'r risgiau'n cynnwys yr arbedion sydd eu hangen er mwyn mantoli'r gyllideb, effaith cymeradwyo cyffuriau newydd ar y gwasanaeth ac ar staff, cost galw cynyddol a phwysau cyffredinol yn gysylltiedig â chwyddiant (ee, wrth adnewyddu contractau cynnal a chadw).

75 Yn ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017, gwelsom nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu darbwyllo comisiynwyr CGF nad oedd y cyllid a dderbyniwyd yn ddigonol i ariannu datblygiad y gwasanaeth, ac nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu rhoi disgrifiad pendant o'r galw am wasanaethau canser a ddarperir yng Nghanolfan Ganser Felindre, na gwir gost y gwasanaethau hynny. Yn ystod 2017, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu model newydd ar gyfer costau ariannol er mwyn rhoi dadansoddiad manylach a gwell o gost triniaethau unigol yng Nghanolfan Ganser Felindre, i ddisodli model y contract cyffredinol (gweler A5 2018, Atodiad 1). Mae'r model costio newydd ar ei hôl hi, ond ar ôl ei gwblhau, bydd yn hollbwysig er mwyn i'r Ymddiriedolaeth bennu cost wirioneddol gwasanaethau.

76 Mae'r Cyfarfodydd Comisiynu Cydweithredol misol rhwng yr Ymddiriedolaeth, comisiynwyr CGF a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn galluogi trafodaethau ar gyfeiriad y CTCI, blaenoriaethau gwasanaethau, a'r heriau, gan gynnwys heriau ariannol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod trafodaethau â chomisiynwyr CGF wedi mynd rhagddynt dros y 18 mis diwethaf, a bod mwy o ddeialog rhwng cynllunwyr gwasanaethau. Derbyniodd CGF gyllid ychwanegol yn 2018-19 i ariannu amryw o driniaethau a meddyginiaethau penodol newydd, er enghraifft triniaeth radiotherapi ar gyfer canser y fron ar yr ochr chwith (sydd yn costio mwy na'r driniaeth gonfensiynol ond sy'n lleihau'r graddau y daw ymbelydredd i gysylltiad â'r galon). Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cwrdd â chomisiynwyr CGF ym mis Hydref/Tachwedd 2018 i drafod drafft yr Ymddiriedolaeth o'i CTCI ar gyfer 2018-21, a chynlluniau gwasanaeth ategol a bwriadau a chynlluniau'r comisiynwyr. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r cyfarfodydd i adolygu pwysau o ran costau, cynlluniau arbed cynlluniedig ac i drafod cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau yng Nghanolfan Ganser Felindre lle ceir bylchau mewn adnoddau. Yn y pen draw, os na all CGF argyhoeddi ei chomisiynwyr fod y cyllid sylfaenol yn annigonol, gallai fod angen iddi benderfynu pa wasanaethau na fydd yn gallu eu darparu.

77 Yn 2016, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid cyfalaf i dalu am waith rheoli rhaglenni a galluogi ar gyfer ysbyty newydd, ac elfennau eraill o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Yng nghanol 2017, yn sgil pryderon ynghylch cost gynyddol y rhaglen, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad gan Deloitte er mwyn ystyried y prosesau a'r rheolaethau ariannol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Yn adolygiad Deloitte, gwnaed argymhellion i wella'r rheolaethau ariannol a'r trefniadau craffu ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Gweithredodd yr Ymddiriedolaeth gamau priodol i ymdrin â'r argymhellion,

a chwblhawyd yr holl gamau erbyn mis Medi 2018. Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach ar gyfer y rhaglen, ond roedd y cyllid hwnnw'n llai na'r disgwyl.

78 Sefydlwyd Grŵp Arwain y Comisiynwyr a oedd yn cynnwys yr holl fyrddau iechyd sy'n comisiynu, o dan arweinyddiaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i drafod a sicrhau cytundeb y byrddau iechyd ar gyfer yr ysbyty newydd. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ysbyty newydd yn 2017, y cytunodd yr holl fyrddau iechyd a oedd yn comisiynu a Llywodraeth Cymru arno yn 2018. Bydd yr ysbyty newydd yn cael ei ariannu drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol,[6] ac mae'r byrddau iechyd sy'n comisiynu CGF wedi cytuno i dalu'r costau refeniw sefydlog ar gyfer y seilwaith, sef costau cynnal yr ysbyty newydd (mwy). Fodd bynnag, bydd costau clinigol amrywiol y galw sydd wedi'i fodelu, sef y gost am y twf a ragfynegir yn y galw a datblygiadau ym maes gofal canser, yn cael ei hystyried a'i chytuno'n flynyddol. Bydd y costau clinigol amrywiol yn seiliedig ar y gost wirioneddol a ddangosir drwy'r model costau newydd, yn hytrach na'r twf a ragfynegir yn y galw. Bydd Grŵp Arwain y Comisiynwyr yn cael ei ailsefydlu fel bo modd gwneud penderfyniadau ynghylch y rhaglen TGC ehangach o hyn allan, yn seiliedig ar lwyddiant y cyfrwng hwn wrth ddod i gytundeb ynghylch yr achos busnes amlinellol ar gyfer yr ysbyty newydd.

79 Yn ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017, nodwyd nad oedd gwaith yr Ymddiriedolaeth i gynllunio'r gweithlu ond megis dechrau. Yn ystod 2018, datblygodd yr Ymddiriedolaeth fframwaith cynllunio'r gweithlu gan anelu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithlu CGF a GGC yn sail ar gyfer CTCI 2019-22. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Datblygu y GIG i ddarparu offer a hyfforddiant i arweinwyr gwasanaeth ym maes cynllunio'r gweithlu. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn datblygu model moderneiddio'r gweithlu i gynorthwyo rheolwyr i ailddylunio'r gweithlu a nodi dulliau newydd o weithio yn seiliedig ar ganllawiau Gwasanaeth Gweithlu, Addysg a Datblygu y GIG ar ddirprwyo. Yng NGGC, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu'r gymysgedd o sgiliau ymhlith y staff i gydweddu â'r llifoedd gwaith newydd sy'n cael eu datblygu o dan Gadwyn Cyflenwi Gwaed 2020.

80 Yng Nghanolfan Ganser Felindre, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gweithio gyda'r gweithlu ymgynghorol i ystyried sut y gellir ailddylunio rolau eraill neu gynyddu sgiliau'r staff i gefnogi'r tîm ehangach, gan ddefnyddio arbenigedd ymgynghorwyr lle bo'r angen mwyaf amdano. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda nifer fach o Feddygon Teulu i archwilio sut i ehangu darpariaeth clinig gofal sylfaenol ar gyfer cleifion â chanser, a'r gefnogaeth sydd ei hangen o ran hyfforddiant. Er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu nyrsio cofrestredig, mae CGF yn recriwtio nyrsys o ystod o feysydd arbenigol ac yn eu cynorthwyo i arbenigo mewn oncoleg. Mae CGF yn cydymffurfio â gofynion Deddf Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i ystyried faint o nyrsys sydd eu hangen er mwyn gofalu am gleifion mewn modd sensitif.

81 Cytunodd y Bwrdd ar raglen amlinellol strategol (RhAS) bum mlynedd o hyd ar gyfer gwybodeg ym mis Mawrth 2017. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r RhAS ochr yn ochr â datblygiad CTCI 2019-22 ac yn aildrefnu prosiectau yn ôl eu blaenoriaeth yn unol â blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth a'r gyllideb sydd ar gael iddi. Mae'r RhAS yn nodi'r gyfalaf a'r refeniw fydd ei angen dros y pum mlynedd ar gyfer technoleg a rheoli gwybodaeth (TRhG) er mwyn cefnogi cyflawni rhaglen drawsnewidiol yr Ymddiriedolaeth, ond bydd angen cyllid ychwanegol ar yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r holl gynlluniau. Yn CTCI yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-21, nodwyd blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth o ran gwybodeg, a oedd yn cynnwys cynyddu cydnerthedd rhag bygythiadau seiber, cryfhau'r trefniadau seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth, datblygu gwasanaeth dadansoddi a

[6] Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector preifat yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bydd Llywodraeth Cymru'n talu ffi i bartner preifat i dalu am adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu'r prosiect, ac ar ddiwedd y contract bydd yr ysbyty'n cael ei drosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus.

storio data a disodli systemau a ddefnyddir gan CGF a GGC. Nid yw CTCI 2018-21 yn darparu gwybodaeth fanwl am y camau a gymerir, nac am y costau, ond ceir rhaglenni gwaith TRhG manwl ar gyfer pob is-adran.

82 Nodir strategaeth ystadau ac asedau gyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn y CTCI. Mae'n nodi graddfa a chost eitemau newydd fydd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf, a'r gofynion cyfalaf ar dair lefel: datblygu strategol, datblygu gwasanaethau a datblygu gweithredol.

## Monitro cyflawniad y cynllun strategol

83 Yn olaf, buom yn ystyried a yw'r cynnydd wrth weithredu cynlluniau strategol, a'r rhaglenni newid strategol sy'n eu cefnogi yn cael ei fonitro'n effeithiol. Gwelsom fod **capasiti'r Ymddiriedolaeth i gyflawni a rheoli newid strategol yn brin, a bod hynny'n peryglu'r gallu i gyflawni cynlluniau strategol**.

84 Mewn Archwiliad Mewnol ym mis Mai 2018, adroddwyd bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i fonitro cynnydd o ran cyflawni'r CTCI (gweler paragraff 68). Caiff adroddiadau chwarterol, sy'n dangos cynnydd yn erbyn targedau a cherrig milltir y CTCI, eu hystyried gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Mae adroddiadau monitro cynnydd y CTCI yn cynnwys:

- sgôr tracio lefel uchel sy'n dangos a yw nodau CGF a GGC wedi'u cwblhau, ar y trywydd iawn, neu ar ei hôl hi; ac
- adroddiad sy'n rhoi crynodeb lefel uchel o gynnydd yn erbyn y nodau sydd i'w cyflawni.

85 Dengys ein hasesiad o'r crynodeb lefel uchel nad yw'r adroddiad yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng yr effaith a fwriadwyd a'r effaith wirioneddol a sicrhawyd. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chynllunio yn gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn cyflawniad y CTCI. Canfu ein hadolygiad o bapurau pwyllgor bod ei adolygiad o gynnydd y CTCI yn canolbwyntio'n helaeth ar fonitro gwybodaeth rheoli perfformiad, a bod angen iddo ganolbwyntio mwy ar graffu ar gynnydd yn erbyn nodau'r CTCI.

86 Argymhellwyd yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2017 y dylai'r Ymddiriedolaeth, fel mater o frys, o ystyried maint y newid o fewn y sefydliad, gynnal asesiad risg o ddigonolrwydd y capasiti o ran arweinyddiaeth lefel uwch a rheoli newid. Ceir mwy o fanylion am gamau'r Ymddiriedolaeth i ymdrin â'r argymhelliad yn A11 2018, Atodiad 1. Nodai adolygiad yr Ymddiriedolaeth o gapasiti fod angen cefnogaeth rheoli prosiect ychwanegol ar uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol, a bod y capasiti o ran arweinyddiaeth lefel uwch yn brin. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn datblygu cynlluniau i gynyddu capasiti'r uwch dîm arwain er mwyn sicrhau goruchwyliaeth strategol ddigonol wrth gyflawni cynlluniau gweithredol a datblygu'r rhaglenni trawsnewid.

87 Sefydliad cymharol fach yw'r Ymddiriedolaeth ac mae'n gweithio i gyflawni rhaglenni newid uchelgeisiol. Nodai papur trafod Addas i'r Dyfodol yr Ymddiriedolaeth fylchau o ran capasiti ac/neu allu mewn rhai meysydd craidd. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys rheoli newid, deallusrwydd busnes, gwella gwasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu, arloesi a chraffter masnachol/ym myd busnes. Nodai'r papur y bydd y bylchau hyn yn amharu ar allu'r Ymddiriedolaeth i drawsnewid a gwella gwasanaethau, gan reoli'r busnes craidd ar yr un pryd. Mae papur Addas i'r Dyfodol yr Ymddiriedolaeth yn creu'r sail ar gyfer trafodaethau parhaus o fewn yr Ymddiriedolaeth a chyda chomisiynwyr er mwyn canfod sut i ymdrin â'r bwlch mewn capasiti/gallu.

88 Bu'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sut y gallai wneud defnydd mwy effeithlon o staff presennol i leihau costau, a pha aelodau o staff y gellid eu defnyddio, yn rhannol, i lenwi rhai o'r bylchau mewn capasiti/gallu. Er bod rhai o swyddogaethau cymorth canolog yng nghanolfan gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth, ceir timau cymorth ar wahân, fel TG, cyfathrebu a chefnogaeth weinyddol, o fewn y ddwy is-adran. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y byddai'n fanteisiol cyfuno rhannau o'r swyddogaethau cymorth o leiaf er mwyn osgoi ail-wneud

gwaith. Yn ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn bwriadu creu tîm ar gyfer yr holl Ymddiriedolaeth i gefnogi gwybodeg, ond nid yw eu cynlluniau wedi datblygu eto. Yn ystod ein cyfweliadau, amlinellodd yr Ymddiriedolaeth ei bwriad i greu timau deallusrwydd busnes a desg gymorth TG ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan, i sicrhau cydweithio agosach rhwng y ddau dîm seiberddiogelwch is-adrannol. Y mae hefyd yn ystyried cyfleoedd i fabwysiadu ymagwedd debyg mewn meysydd eraill. Rydym yn argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth, fel mater o flaenoriaeth, adolygu'r holl wasanaethau cymorth yn y ddwy is-adran er mwyn canfod meysydd a fyddai'n elwa ar gyfuno i greu un gwasanaeth i'r Ymddiriedolaeth gyfan, ac asesu sut y gallai hyn fod o gymorth i gau bylchau capasiti/gallu.

89 Mae rhaglenni trawsnewid yr Ymddiriedolaeth yn elfen allweddol er mwyn cyflawni CTCI yr Ymddiriedolaeth. Er mwyn cyflawni rhaglenni trawsnewid yr Ymddiriedolaeth hyn llwyddiannus, mae angen cael trefniadau rheoli newid priodol, ac ymglymiad ac ymgysylltiad y staff yn sail ar gyfer hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod effaith rhaglenni trawsnewid ar staff, ac effaith barhaus y rhaglenni hynny ar staff dros y blynyddoedd nesaf. Mewn arolygon staff blaenorol, amlygwyd bod angen esbonio'r rhesymau dros newid wrth y staff, a darparu cymorth priodol. Ym mis Mehefin 2018, ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth effaith newid sy'n deillio o Gadwyn Cyflenwi Gwaed Cymru 2020 ar lesiant y staff at y gofrestr risg gorfforaethol. Mae sgôr y risg wedi gostwng ers ei hychwanegu at y gofrestr risg is-adrannol ym mis Chwefror 2018, oherwydd y camau a gymerwyd i reoli ac ymdrin â'r risg. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys defnyddio'r pecyn cymorth newid y mae'r Ymddiriedolaeth newydd ei ddatblygu i gefnogi'r staff, a chynnal cyfarfodydd bob deufis â'r undebau llafur a chynrychiolwyr y staff.

90 Yn ogystal â datblygu pecynnau cymorth newid i gefnogi rheolwyr a staff, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu hyfforddiant i reolwyr ar sut i reoli rhaglenni newid a chefnogi staff drwy'r newid hwnnw. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi nodi gwersi i'w dysgu yn sgil gweithredu rhaglen Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 yng NGGC yn sail ar gyfer trefniadau rheoli newid y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Fodd bynnag, mae prinder capasiti rheoli newid o fewn yr Ymddiriedolaeth yn peryglu'r gallu i drawsnewid.

## Trefniadau ehangach sy'n cefnogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

91 I raddau helaeth, mae defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn dibynnu ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau hynny ac ar y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant hyd yr eithaf. Buom yn archwilio a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau.

92 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd, ac yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau i sicrhau arbedion ariannol, ond bu'r cynnydd yn araf o ran safoni rheolaeth gorfforaethol ar Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth**.

### Rheoli'r gweithlu

93 Y gweithlu yw ased mwyaf y Ymddiriedolaeth, yn bennaf gan fod cyflogau i gyfrif am gyfran mor sylweddol o'i gwariant. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithlu yn gynhyrchiol ac wedi'i reoli'n dda, gan fod staff yn hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd. Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau cadarnhaol i ymdrin ag absenoldeb salwch a llesiant y staff, ac i recriwtio a chadw staff yn well**.

94 Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad yr Ymddiriedolaeth yng nghyswllt rhai mesuriadau allweddol, o gymharu â chyfartaledd Cymru. Yn Nangosyn 1 gwelir bod perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn well na chyfartaledd Cymru ym mhedwar o'r pum mesuriad.

Dangosyn 1: perfformiad yn erbyn mesuriadau allweddol y gweithlu[7]

| Mesuriadau'r gweithlu | Yr Ymddiriedolaeth | Cyfartaledd Cymru |
|---|---:|---:|
| Absenoldeb oherwydd salwch | 4.1% | 5.3% |
| Trosiant | 10.5% | 6.9% |
| Swyddi Gwag | 2.2% | 2.6% |
| Arfarniadau | 74% | 67% |
| Hyfforddiant statudol a gorfodol | 78% | 73% |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gweithlu GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gorffennaf 2018

95 Mae trosiant staff yr Ymddiriedolaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her sylweddol i lawer o grwpiau o staff, gan gynnwys oncolegwyr arbenigol, meddygon iau, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd, nyrsys cofrestredig, fferyllwyr a thechnegwyr TG. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod y meysydd y mae hi'n anodd recriwtio iddynt yn adlewyrchu prinder cenedlaethol.

96 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno sawl menter i recriwtio a chadw staff yn well, fel cynnal diwrnodiau profi oncoleg i ddenu meddygon iau a myfyrwyr meddygol, gyda chyfraddau uchel yn manteisio ar y fenter. Yn ogystal â hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio i wella prosesau recriwtio, fel cynnal gweithdai Penodi Ynghynt a datblygu cyfres o ganllawiau recriwtio i gynorthwyo rheolwyr i ddilyn prosesau recriwtio a dethol priodol a thargedu ymgeiswyr o safon.

97 Er bod cyfraddau absenoldeb salwch o fewn yr Ymddiriedolaeth yn well na chyfartaledd Cymru, mae'r gyfradd yn uwch na'r targed (3.54%) a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Medi 2017, dyfarnodd yr Adran Archwilio Mewnol sgôr 'sicrwydd cyfyngedig' ar gyfer rheolaeth yr Ymddiriedolaeth ar absenoldeb salwch, gan amlygu problemau'n gysylltiedig â chofnodi gwyliau a rheoli absenoldeb salwch. Mae Tîm Gweithlu a Datblygu Trefniadol yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o absenoldeb salwch ers mis Hydref 2018. Yn ogystal â hynny, cyflwynir adroddiadau cydymffurfio i reolwyr er mwyn amlinellu canfyddiadau archwilio a chadarnhau'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau absenoldeb salwch. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu data i reolwyr er mwyn monitro cyfraddau absenoldeb salwch, ac mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu er mwyn helpu rheolwyr i nodi ac ymyrryd yn brydlon pan fydd absenoldeb

[7] Salwch: cyfartaledd treigl dros 12 mis ym mis Gorffennaf 2018; Trosiant: cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2017 hyd fis Mehefin 2018; Swyddi Gwag: mis ym mis Chwefror 2018; Arfarnu: y 12 mis blaenorol; Hyfforddiant statudol a gorfodol: ym mis Gorffennaf 2018

salwch yn cyrraedd trothwy penodol. Bu gostyngiad mewn cyfraddau absenoldeb salwch hefyd, ers y penllanw o 5.26% ym mis Mawrth 2018.

98 Yr achos a grybwyllir amlaf pan fydd cyflogai yn absennol oherwydd salwch yw 'straen, gorbryder neu fath arall o salwch seiciatryddol'. Yn ystod 2018, cychwynnodd yr Ymddiriedolaeth sawl menter i wella lles meddyliol yn y gweithle. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys datblygu Polisi Iechyd Meddwl, Llesiant a Rheoli Straen (i ddisodli'r polisi absenoldeb salwch blaenorol) a phecyn cymorth ategol i gefnogi rheolwyr a staff. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn recriwtio hyrwyddwyr iechyd a llesiant a swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, ac yn gweithredu dull rhagweithiol o gefnogi staff â hanes o salwch meddwl. I gydnabod ei hymrwymiad i wella iechyd a llesiant ei staff, dyfarnwyd gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol i'r Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2018.

99 Yn gyffredinol, cafwyd cyfradd gydymffurfio o 74% â'r broses Adolygiadau Perfformiad a Datblygu (PADR) ym mis Mehefin 2018, sydd yn well na chyfartaledd Cymru ond yn is na'r targed (85%). Mae cydymffurfiaeth â'r broses PADR yn amrywio rhwng is-adrannau'r Ymddiriedolaeth a'r ganolfan gorfforaethol. 69% oedd cyfradd gydymffurfio CGF, 88% oedd y gyfradd ar gyfer GGC, a 64% ar gyfer y ganolfan gorfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi arweiniad a hyfforddiant i'r staff ar gwblhau'r broses PADR drwy Gofnod Electronig y Staff (ESR). Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym nad yw pob aelod o staff yn cydymffurfio â'r gofyniad i ddiweddaru'r ESR, a bod angen gwella ansawdd y broses PADR. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y ceir gwelliannau erbyn diwedd 2018, wedi'u hysgogi'n rhannol gan drefniadau cenedlaethol ar gyfer ychwanegiadau cyflog, lle bydd unrhyw ychwanegiad yn ddibynnol ar sicrhau PADR cyfredol.

100 Mae Tîm Gweithlu a Datblygu Trefniadol yr Ymddiriedolaeth yn cydweithio â rheolwyr er mwyn nodi anghenion hyfforddi, ond mae'n cydnabod ei bod hi'n hanfodol cynyddu cyfraddau PADR er mwyn dadansoddi anghenion hyfforddi. Yn ystod 2018, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn datblygu deunyddiau hyfforddi newydd ac yn diwygio polisïau PADR er mwyn helpu i wella ansawdd PADRs i sicrhau eu bod yn creu darlun llawn o'r holl anghenion datblygu. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr gyfredol. Yn ogystal â hyn, mae Tîm y Gweithlu a Datblygu Trefniadol wedi bod yn cydweithio â rheolwyr i fapio sgiliau er mwyn asesu'r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol a chreu llwybrau datblygu gyrfa. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wneud mwy o waith i ddeall y gyllideb hyfforddiant a chyfanswm cost hyfforddiant. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau clir i fonitro cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, nid oes trefniadau tebyg ar gyfer gofynion hyfforddi eraill. Cafwyd gwelliant i'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol dros y 12 mis diwethaf. Cafwyd cyfradd gydymffurfio gyffredinol o 78% ym mis Gorffennaf 2018 o gymharu â 67% ym mis Gorffennaf 2017.

101 Yn 2017, amlygodd arolwg hyfforddiant cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol bryderon sylweddol ynghylch ansawdd y profiad hyfforddi a gaiff meddygon dan hyfforddiant yn yr Ymddiriedolaeth. Tua diwedd 2017, gweithredodd yr Ymddiriedolaeth i leihau defnyddio hyfforddeion yn ormodol i gyflawni rowndiau ward, er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer hyfforddiant. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod ymatebion arolwg hyfforddiant diweddaraf y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dangos gwelliant cyffredinol ym maes profiadau meddygon dan hyfforddiant, goruchwyliaeth, llywodraethu addysgol, adborth, cynefino, addysgu, systemau adrodd, seibiant astudio, amgylchedd cefnogol a'r llwyth gwaith.

## Rheoli'r cyllid

102 Buom yn ystyried rheoli ariannol a chyllidebau, rheolaethau ariannol, a chefnogaeth a phrosesau gweithredol. Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cyfrifyddu effeithiol, a'i bod yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau i sicrhau arbedion ariannol**.

103 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal ei record o fantoli'r gyllideb yn 2017-18, ac adroddodd swm bychan o warged, sef cyfanswm o £49,000 (mae a wnelo £28,000 o'r gwarged â PCGC). Llwyddodd hefyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o 2015 i 2018. Ar gyfer 2017-18, roedd strategaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys gofyniad i arbed £1.722 miliwn, ac yn erbyn hynny llwyddodd i gyflawni £1.433 miliwn mewn arbedion. Mae'r sefyllfa gyffredinol hon yn cuddio'r sefyllfaoedd amrywiol ym mhrif is-adrannau'r Ymddiriedolaeth. Llwyddodd GGC i arbed £147,000 yn fwy na'i darged, ond roedd arbedion CGF £409,000 yn is na'i tharged. Roedd cyfran o'r arbedion na lwyddodd CGF i'w sicrhau yn arbedion cylchol, a bydd hyn yn parhau i roi straen ychwanegol ar gostau'r Ymddiriedolaeth. Yn gyffredinol, tangyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn yr arbedion gofynnol. Fodd bynnag llwyddodd i sicrhau gwarged ar ddiwedd y flwyddyn gan fod GGC wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb, a thrwy ddefnyddio arian wrth gefn yr Ymddiriedolaeth a oedd heb ei neilltuo ac adfer balansau gan gredydwyr penodol nad oeddent mwyach yn cael eu hystyried yn rhwymedigaethau dilys ar fantolen yr Ymddiriedolaeth. Ar ben hynny, darparodd Llywodraeth Cymru £750,000 yn uniongyrchol i'r Ymddiriedolaeth, gan nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu darbwyllo'r byrddau iechyd sy'n ei chomisiynu i ddarparu cymorth refeniw ar gyfer rhai costau'n gysylltiedig â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser.

104 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2018-19, ond ym mis 6, adroddodd orwariant bach o £67,000 yn erbyn y gyllideb. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cymryd camau unioni er mwyn mantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, gan gynnwys cynyddu ffocws rheolwyr ar gyflawni arbedion drwy drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer adfer ariannol (gweler A1 2018, Atodiad 1).

105 Yng nghynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-19, nodir £2.502 miliwn o arbedion sydd eu hangen er mwyn mantoli'r gyllideb, gan gynnwys cyfanswm o £606,000 o arbedion amhenodol. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o £306,000 yng cyfanswm yr arbedion amhenodol yn ddiweddarach drwy fesurau untro, a rhannwyd balans yr arbedion yr oedd eu hangen fesul cyfran ar draws is-adrannau craidd yr Ymddiriedolaeth, ar sail eu dyraniad o'r gyllideb. Ym mis chwech, adroddodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg arbedion o £541,000 yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd a £203,000 o arbedion a oedd yn dal heb eu canfod, ac mae llwyddiant is-adrannau craidd yr Ymddiriedolaeth wrth gyrraedd eu targedau perthynol yn dal i amrywiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd cyfran o'r arbedion gofynnol, ond nid y cyfan ohonynt, wedi'u gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

106 Er bod yr Ymddiriedolaeth yn lleihau ei dibyniaeth ar arbedion untro, y mae'n dal i ddibynnu ar fesurau untro i gyrraedd ei thargedau arbed. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi nodi opsiynau realistig a chynaliadwy ar gyfer arbedion o hyn allan, ac yn cymryd camau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer arbedion ariannol. Yn ddiweddar, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth grwpiau penodol er mwyn gweithredu a monitro arbedion ym mhob is-adran, gydag uwch reolwyr yn gyfrifol am nodi, adolygu a monitro cynlluniau arbed. Bydd arweinydd yn cael ei enwebu ar gyfer pob cynllun. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gwella cynlluniau prosiect ffurfiol ar gyfer cynlluniau gwerth uwch ac adroddiadau a gyflwynir i Fwrdd Rheoli Gweithredol y Bwrdd drwy gynnwys risgiau i gyflawni a'r camau unioni a gynllunnir. Mae'n rhy fuan i gynnig sylwadau ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn.

107 Mae lle i wella'r graddau y mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar ei dealltwriaeth o gost wirioneddol gwasanaethau. Ym mharagraff 75 amlygwyd bod yr Ymddiriedolaeth yr datblygu model newydd ar gyfer costau ariannol er mwyn rhoi dadansoddiad manylach a gwell o gost y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

108 Yn y gorffennol, mae ein gwaith ar gyfrifon blynyddol wedi dangos yn gyson bod trefniadau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer cyfrifyddu a rheolaeth ariannol Mae'r rheolaethau wedi'u dylunio i sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb a ddirprwyir dros y gyllideb yn glir, i sicrhau cywirdeb adroddiadau ariannol gweithredol ac i ysgogi cydymffurfio â'r safonau a'r ddeddfwriaeth ariannol ofynnol.

109 Mae trefniadau monitro ariannol misol yr Ymddiriedolaeth wedi'u hen sefydlu, a thrwy hynny bydd ei sefyllfa ariannol yn cael ei monitro'n fewnol (gan is-adrannau, Rheolwyr Gweithredol a'r Bwrdd), a hefyd gan Lywodraeth Cymru. Y llynedd, argymhellwyd gwelliannau i adroddiadau cyllid y Bwrdd fel bo modd craffu'n well ar arbedion ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'n hargymhellion ac mae'r adroddiadau ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad, ac i'r Bwrdd, wedi gwella (gweler A3 2018, Atodiad 1). Er enghraifft, mae'r adroddiadau bellach yn dangos yr arbedion nad ydynt yn cael eu sicrhau, y sefyllfa a ragwelir a'r achosion lle mae sgoriau risg wedi newid.

110 Mae trefniadau caffael yr Ymddiriedolaeth wedi'u datganoli i raddau helaeth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Deallwn fod gan yr Ymddiriedolaeth berthynas dda o ddydd i ddydd â'r gwasanaeth caffael, ac mae hyn o gymorth i ganolbwyntio ar gaffael gweithredol, lleihau costau caffael a chynaliadwyedd. Mae'r trefniadau caffael yn gyson â chynlluniau'r CTCI, ac mae PCGC yn chwarae rhan allweddol er mwyn sicrhau bod achosion busnes yn cyflawni'r nodau a fwriadwyd, heb ehangu y tu hwnt i'w cwmpas gwreiddiol. Ail faes gwariant mwyaf yr Ymddiriedolaeth ar wahân i gyflogau yw'r gwariant ar gynnal cyfarpar. Drwy weithio gyda PCGC mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu contractau cynnal er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd ariannol.

111 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu strategaeth ar gyfer caffael cyfarpar clinigol a thechnoleg gwybodaeth ar gyfer yr ysbyty newydd. Mae'r strategaeth yn nodi'r broses ar gyfer arfarnu cyfarpar, gan gynnwys y posibilrwydd o drosglwyddo cyfarpar a geir eisoes ac/neu brynu cyfarpar newydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys arfarnu'r opsiynau ar sail risg. Lle bo'n briodol, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gohirio prynu cyfarpar newydd ar gyfer y CGF bresennol tra bo cyfarpar newydd yn cael ei brynu ar gyfer yr ysbyty newydd, a rhoddir ystyriaeth i'r angen i barhau i gyflawni rhai o swyddogaethau'r ysbyty presennol am gyfnod cyfyngedig ar ôl i'r ysbyty newydd agor. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu cynlluniau caffael er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth brynu cyfarpar LINAC ar gyfer yr is-uned a'r Ganolfan Ganser newydd.

## Rheoli'r ystâd, asedau ffisegol ac TRhG

112 Yn olaf, buom yn asesu'r modd y caiff yr ystâd ac asedau ffisegol eu rheoli, a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i ddefnyddio technoleg i gefnogi darpariaeth gwasanaeth. Gwelsom fod **gwaith gweinyddol a chynnal a chadw yn gysylltiedig â'r ystâd a'r asedau wedi'i reoli'n ddal, ond bu cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran safoni rheolaeth gorfforaethol ar TRhG yn araf**.

113 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu dull o reoli ystadau ac asedau sy'n seiliedig ar risg, ac mae grŵp rheoli asedau yn goruchwylio hynny. Mae'r trefniant hwn o gymorth i flaenoriaethu'r dyraniad prin o gyfalaf dewisol yn bennaf ar draws yr ystâd, y seilwaith TRhG, cyfarpar meddygol ac asedau eraill cysylltiedig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyblyg ac yn ymateb i flaenoriaethau newydd, er enghraifft, pan geir risgiau brys ac annisgwyl i iechyd a diogelwch, neu lle bo cyfarpar yn torri yn annisgwyl. Ceir trefniadau priodol i graffu ar flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar lefel weithredol a strategol.

114 Ar gyfer y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar yr ystadau, mae'r Ymddiriedolaeth yn comisiynu arolygon cyflwr ar gyfer CGF a GGC sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am gyflwr yr ystadau a'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Cynhelir adolygiad blynyddol o'r arolygon, gan fwydo'r canfyddiadau i'r rhaglen gyfalaf. Mewn archwiliadau diweddar, nodwyd nad oedd digon o ofod storio yng Nghanolfan Ganser Felindre (gan gynnwys gwasanaethau fferyllol, gwasanaethau aseptig, corffdy, swyddfeydd a gofod storio cyffredinol). Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu strategaeth swyddfeydd ar gyfer CGF i amlinellu'r swm hanfodol y mae angen ei fuddsoddi fel bo modd parhau i ddarparu gwasanaethau diogel yn y cyfamser. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn

adolygu hyd oes pencadlys a labordai arbenigol GGC, oherwydd y gofynion cynnal a chadw cynyddol, ac er mwyn sicrhau y parheir i gydymffurfio â'r rheoliadau, fel sy'n ofynnol yn ôl trwydded weithredu'r Gwasanaeth.

115 Ceir dwy adran TRhG ar wahân yn y naill is-adran a'r llall. Mewn adroddiad Archwilio Mewnol rhoddwyd 'sicrwydd rhesymol' ynghylch ymagwedd strategol yr Ymddiriedolaeth at TRhG ym mis Awst 2017. Fodd bynnag, nodwyd hefyd yn yr adroddiad fod trefniadau llywodraethu a goruchwylio strategol ar gyfer TRhG wedi galluogi is-adrannau i ddatblygu eu prosesau eu hunain, a bod hynny wedi creu diffyg cysondeb ac integreiddio ar draws yr Ymddiriedolaeth. Nodai'r adroddiad hefyd nad oedd unrhyw weithdrefnau lefel gorfforaethol ynghylch sut i reoli'r swyddogaeth TRhG o fewn yr Ymddiriedolaeth yn ei chyfanrwydd. Caiff y prosesau a'r mecanweithiau ar gyfer asesu a derbyn eitemau i raglenni gwaith eu rheoli gan yr is-adrannau. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhyw lawer o gynnydd i ymdrin ag argymhellion yr adroddiad, ac amlygir ym mharagraff 88 nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau ei hadolygiad o wybodeg.

116 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau i ddefnyddio technoleg i wella ymgysylltiad â rhoddwyr gwaed, i gefnogi dulliau cyfathrebu tele-iechyd, i wella cofnodion cleifion a sicrhau dealltwriaeth well o ran busnes. Mae hyn yn galonogol; fodd bynnag, bydd hi'n bwysig i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod digon o gapasiti yn ei hadran wybodeg i alluogi TGCh i gefnogi'r broses o newid gwasanaethau yn ddigonol, drwy dechnolegau galluogi digidol.

# Argymhellion

Dangosyn 2: argymhellion 2018

| argymhellion 2018 |
|---|
| **Gweithredu argymhellion blaenorol** |
| A1 Mae amryw o argymhellion a wnaed gennym yn 2017 yn dal heb eu cwblhau. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithredu'r argymhellion sy'n weddill yn llawn (fel y nodir yn Atodiad 1). |
| **Tryloywder y broses benderfynu** |
| A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y ceir mecanwaith i wirio bod unrhyw eitemau ar yr agenda a ystyrir ar gyfer sesiynau preifat y Bwrdd a sesiynau pwyllgor preifat yn briodol ar gyfer cyfarfodydd preifat (yn hytrach na rhai cyhoeddus). |
| **Tryloywder busnes y Bwrdd** |
| A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau bwrdd yn cael eu darparu i'r cyhoedd ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y bwrdd. |
| **Tracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol** |
| A4 Dylai'r Ymddiriedolaeth wella'r trefniadau i dracio argymhellion archwilio drwy: |
| a) weithredu traciwr archwilio er mwyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fonitro cynnydd yn erbyn canfyddiadau ac argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr eraill allanol, fel adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, os nad oes pwyllgorau eraill yn tracio'r rheiny; a |

| argymhellion 2018 |
| --- |
| b) gweithredu mecanwaith i sicrhau bod y swyddog cyfrifol yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o'r camau a gymerwyd ynghyd â chais i gau gweithrediadau Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru), ar ôl eu cwblhau. |
| **Craffu ar archwiliadau clinigol**<br>A5 Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau, gofal cleifion, a sicrhau gwelliannau:<br>a) Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch adolygu a chymeradwyo cynlluniau archwilio clinigol, gan sicrhau bod cynlluniau archwilio clinigol yn ymdrin ag unrhyw risgiau i gyflawni amcanion strategol a risgiau sefydliadol.<br>b) Dylid gwella cynnwys adroddiadau archwilio clinigol gan CGF a GGC fel eu bod yn nodi canfyddiadau archwiliadau'n glir, unrhyw risgiau cysylltiedig a chamau ar gyfer gwella ac unrhyw asesiad dilynol.<br>c) Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ei sicrhau ei hun ei fod yn ymdrin â'r canfyddiadau archwilio clinigol.<br>d) Dylai'r Pwyllgor Archwilio esbonio sut y mae'n ei sicrhau ei hun ynghylch effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio clinigol. |
| **Rheolaethau mewnol**<br>A6 Bydd parau data 2018-19 y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt. Dylai'r cynllun gynnwys:<br>a) Dechrau adolygu'r parau data cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau;<br>b) Adolygu'r holl barau risg uchel ac, yn ogystal â hynny, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill;<br>c) Lle bo parau data wedi'u hadolygu, sicrhau bod rhaglen we'r NFI yn cael ei diweddaru i roi cofnod clir o'r modd yr aethpwyd ati i adolygu'r parau, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny; a<br>d) sicrhau mecanwaith i wirio ymholiadau a dderbyniwyd gan gyrff eraill, ac ymateb i'r rheiny'n brydlon. |
| **Ymgysylltu â chomisiynwyr**<br>A7 Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu model costau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth, dylai sicrhau'r canlynol:<br>a) bod amserlen gytunedig a chyfres o drefniadau wedi'u sefydlu i rannu asesiadau o effaith y model costau newydd â chomisiynwyr yn ystod y cyfnod prawf; ac<br>b) amserlen gytunedig er mwyn cymeradwyo'r model costau newydd yn ffurfiol. |

| argymhellion 2018 | |
|---|---|
| **Cau bylchau o ran capasiti a gallu** | |
| A8 | Dylai'r Ymddiriedolaeth roi'r flaenoriaeth i adolygu gwasanaethau cymorth yn y ddwy is-adran er mwyn canfod meysydd y gellid eu cyfuno i leihau'r achosion o ail-wneud gwaith, cynyddu dysgu trefniadol a goleuo cynlluniau i ymdrin â bylchau mewn capasiti a gallu. |
| **Ymgysylltu â staff** | |
| A9 | Dylai'r Ymddiriedolaeth roi'r flaenoriaeth i adolygu ei threfniadau ar gyfer rheoli newid ac ymgysylltu â staff er mwyn canfod gwelliannau. Dylai'r adolygiad nodi sut orau i gyfleu'r rhesymau dros drawsnewid, nodi cefnogaeth briodol i'r staff, sicrhau cyfathrebu rheolaidd sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020. |

# Atodiad 1

## Cynnydd wrth weithredu argymhellion blaenorol

Dangosyn 3: camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion 2017, ac argymhellion blaenorol sy'n weddill

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| **argymhellion o asesiad strwythuredig 2016** | | |
| **A3 Tryloywder adroddiadau i'r cyhoedd**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru 2016 ar adroddiadau cyhoeddus tryloyw. | Roedd Cylchlythyr Iechyd Cymru 2016 yn darparu rhestr o'r dogfennau y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael ar wefannau cyrff iechyd. Wrth adolygu gwefan yr Ymddiriedolaeth yn 2018, nid oeddem yn gallu cael hyd i Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, cynlluniau ymgysylltu â dinasyddion, cynlluniau diogelwch cleifion/ansawdd na pholisïau iechyd a diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cynllun Blynyddol o fusnes y Bwrdd, CTCI yr Ymddiriedolaeth a Chynllun y Gymraeg ar gael ar y wefan, ond roedd y dogfennau hyn naill ai wedi dyddio neu heb fod yn fersiynau diweddaraf. | Heb ei gwblhau |
| **A4 Cynnal pwyllgorau**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad myfyriol o'i ddefnydd o Ran B, mewn sesiynau pwyllgor ar gamera. Dylai'r asesiad ganolbwyntio ar eitemau o'r agenda a ystyrir yn sesiynau Rhan B, ac a fyddai wedi bod yn fwy priodol ystyried yr eitemau hynny'n gyhoeddus. | Ym mis Gorffennaf 2018, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o eitemau ar yr agenda a ystyriwyd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau dros y flwyddyn gynt. Canfu mai ond un o'r 60 o eitemau ar yr agenda a ystyriwyd mewn sesiynau preifat a allai fod wedi cael ei chynnwys mewn cyfarfod cyhoeddus.<br>Drwy ein cyfweliadau, fodd bynnag, gwelwyd bod y Bwrdd wedi nodi yn ystod cyfarfod bwrdd Medi 2018 y gallai dwy eitem a drafodwyd yn breifat fod wedi cael eu trafod yn y sesiwn gyhoeddus. | Wedi'i gwblhau, ond materion yn parhau |
| **A7b Rheoli risg**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r archwiliad mewnol ar reoli risg sydd ar ddod i gael darlun manwl o effeithiolrwydd uwchgyfeirio risgiau o lefel is-adrannol i lefel gorfforaethol. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu camau i ymdrin ag argymhellion Archwilio Mewnol, ac wedi sicrhau bod unigolion priodol wedi'u pennu'n berchnogion risg ac yn berchnogion cofrestrau risg is-adrannol. | Cwblhawyd |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| **A7c Rheoli risg**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth safoni ffurf ei chofrestrau risg amrywiol, gan sicrhau bod elfennau o arfer da o bob cofrestr yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad. | Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth beidio safoni ei chofrestrau risg gan nad oedd o'r farn ei bod hi'n briodol defnyddio un ymagwedd gyffredin i bawb. Er ei bod yn parhau i fod o'r farn hon, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnal adolygiad er mwyn canfod pa elfennau ar gofrestr gorfforaethol newydd yr Ymddiriedolaeth y dylid eu hymgorffori yng nghofrestrau risg adrannau, is-adrannau a chyrff a gynhelir. | Ar y gweill |
| **argymhellion o asesiad strwythuredig 2017** | | |
| **A1 Cynllunio arbedion ariannol**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion ariannol er mwyn lleihau ei dibyniaeth ar gynllunio arbedion untro a nodi opsiynau arbedion cynaliadwy realistig yn y dyfodol. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi dull newydd o gynllunio arbedion ariannol ar waith. Mae pob Is-adran wedi sefydlu Grŵp Gweithredu a Monitro Arbedion sy'n gyfrifol am nodi cynlluniau arbed ariannol newydd ac adolygu cynlluniau sy'n bodoli eisoes, asesu cynlluniau a monitro eu gweithrediad a'u cyflawniad.<br>Bydd arweinydd yn cael ei enwebu ar gyfer pob cynllun arbed, ac os yw gwerth y cynllun yn fwy na £50,000 bydd cynllun prosiect ffurfiol a cherrig milltir, risgiau a chamau clir yn cael eu nodi. Defnyddir traciwr cyflawni cynlluniau arbed ariannol i adrodd ar gynnydd wrth y Bwrdd Rheoli Gweithredol. Bydd y traciwr cyflawni yn cynnwys:<br>• cynnydd o ran gweithredu cynlluniau arbed, a'r arbedion a gyflawnwyd hyd yma;<br>• rhagolygon o'r arbedion a gyflawnir erbyn diwedd y flwyddyn;<br>• unrhyw risgiau/broblemau yn gysylltiedig â chyflawni arbedion; a<br>• chamau a gymerir i ddatrys risgiau. | Cwblhawyd |
| **A2 Gwerthusiad ffurfiol o arbedion**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth werthuso llwyddiant a methiant cynlluniau arbedion yn flynyddol a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella'r ffordd y mae'n cynllunio arbedion. Dylid cynnwys canlyniadau'r gwerthusiad fel gwybodaeth i gefnogi'r cynllun arbedion a gymeradwyir gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad bob blwyddyn. | Cafodd cyflawniad cynllun arbedion 2017-18 ei gynnwys mewn papur ar y cynllun ariannol diwygiedig a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd Rheoli Gweithredol ym mis Mai 2018, ac eto ym mis Mehefin 2018. Yn adroddiad mis Mehefin 2018, nodwyd bod y trefniadau ar gyfer llywodraethu a monitro arbedion ariannol wedi gwella. Bydd gwerthusiad o'r arbedion a gyflawnwyd yn 2017-18 a 2018-19 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o gynllunio arbedion 2019-20. | Ar y gweill |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| **A3 Adrodd am arbedion**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu'r wybodaeth am arbedion ariannol sydd wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn yr adroddiad ariannol a ddefnyddir gan y Bwrdd a'r pwyllgorau. Dylai'r adolygiad ystyried a oes digon o wybodaeth wedi'i chynnwys ar hyn o bryd i alluogi craffu manwl ar gyflawniad cynlluniau arbed a thargedau. | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys mwy o fanylion am sefyllfa'r arbedion ariannol mewn adroddiadau cyllid a gyflwynir gerbron y Bwrdd. Mae'r manylion hyn yn cynnwys gwybodaeth am:<br>• gynlluniau arbed sydd heb gyflawni;<br>• rhagolygon o'r arbedion a gyflawnir erbyn diwedd y flwyddyn;<br>• proffil o'r cyflawniad a ragwelir drwy gydol y flwyddyn ar gyfer arbedion;<br>• cynlluniau y mae eu sgoriau risg wedi newid rhwng coch, ambr a gwyrdd; a<br>• faint o arbedion sydd eu hangen os na cheir unrhyw gynlluniau eto. | Cwblhawyd |
| **A4 Craffu ar y CTCI**<br>O gofio'r anawsterau parhaus yn gysylltiedig â bwlch ariannu'r CTCI, a'r tebygolrwydd y bydd pwysau ariannol yn parhau, dylai'r Bwrdd gytuno ar ymagwedd i gryfhau'r trefniadau ar gyfer craffu ar ddrafftiau nesaf y CTCI, a'r rhagdybiaethau ariannol sydd wedi'u cynnwys ynddo. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio amserlen ar gyfer datblygu CTCI 2019-2022, sy'n cynnwys mwy o amser craffu i'r Bwrdd.<br>Mae canllawiau cynllunio'r CTCI yn pwysleisio'r angen i nodi'r galw am wasanaethau a chost eu darparu. Mae mwy o amser wedi'i neilltuo ar gyfer seminarau'r Bwrdd gan roi cyfleoedd pellach i'r Bwrdd gael craffu. | Cwblhawyd |
| **A5 Data gwella ar gyfer costau a'r galw**<br>Mae'r gwaith cyfredol ar fodel contractio ariannol yn hanfodol er mwyn i'r Ymddiriedolaeth allu cryfhau ei safbwynt wrth negodi ynghylch cyllid, ac er mwyn cryfhau ei chynlluniau ar gyfer arbedion. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi amserlen glir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gerbron y Bwrdd. | Mae'r gwaith i weithredu'r model costau newydd ar ei hôl hi. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi newid y dyddiad cwblhau ddwywaith ers ein Hasesiad Strwythuredig yn 2017, a rhagwelir bellach y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2019.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trafodaeth â chomisiynwyr CGF i gytuno ar gynnal y model newydd ochr yn ochr â'r model contractio cyfredol yn ystod 2019-20.<br>Ers mis Gorffennaf 2018, nodwyd y cynnydd wrth ddatblygu'r model yn holl Adroddiadau Cyllid y Bwrdd. Ar ôl cwblhau'r gwaith o ddatblygu'r model costau, ac ar ôl i'r Ymddiriedolaeth werthuso'r effaith ariannol, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd gydag argymhellion. | Ar y gweill |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| **A6 Trefniadau cynnal**<br>O fewn y flwyddyn nesaf, dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnydd wrth weithredu Gofynion Sicrwydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn asesu a yw'r trefniadau newydd yn arwain at lywodraethu a sicrwydd mwy effeithiol. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i gadarnhau a gwella'r trefniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gan gynnwys:<br>• cytuno ar gyfres gliriach o drefniadau er mwyn llywodraethu Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru, drwy gadarnhau pa feysydd y mae'r Ymddiriedolaeth yn atebol drostynt, ac yn y meysydd hynny, nodi'r hyn sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolaeth;<br>• tracio camau i weithredu argymhellion sy'n deillio o adolygiadau allanol o Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru ac adrodd ar hynny wrth y Pwyllgor Archwilio;<br>• gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru i hyrwyddo adroddiadau ar y rhesymau sydd wrth wraidd digwyddiadau mawr (diffygion data) a effeithiodd ar systemau TG cenedlaethol yn 2017 a 2018 (a chamau unioni ar gyfer hynny);<br>• craffu ar benderfyniadau gweithlu Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru fel bo modd ymateb ynghynt wrth reoli unrhyw ddigwyddiadau mawr yn gysylltiedig â TGCh yn y dyfodol; a<br>• gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru i sicrhau bod drafft o Gynllun Archwilio Mewnol yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni yng Ngwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am bennu pa feysydd i'w trafod yn y cynllun, ac ar hyn o bryd mae'n cydweithio â Llywodraeth Cymru i bennu'r trefniadau mwyaf priodol ar gyfer adrodd ynghylch sicrwydd wrth Lywodraeth Cymru a chyrff iechyd eraill.<br>Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu effeithiolrwydd gofynion sicrwydd arfaethedig Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn nhymor y gwanwyn 2019, yn unol ag unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad gwybodeg annibynnol, ac yn dibynnu ar y newidiadau hynny hefyd. | Ar y gweill |
| **A7 Rhaglen sicrwydd y bwrdd**<br>Gan nad oes rhyw lawer o ymwybyddiaeth o FfSB ymhlith Aelodau Annibynnol, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun i gynyddu perchnogaeth y Bwrdd | Ar ddiwedd 2017, nodwyd AA i arwain trefniadau rheoli risg (gan gynnwys FfSB) ar ran yr AAau eraill, ac mae'n darparu gwybodaeth yn sail ar gyfer datblygu FfSB.<br>Ers ein Hasesiad Strwythuredig diwethaf, mae'r Bwrdd wedi derbyn dau ddiweddariad ynghylch FfSB, a dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym eu bod yn bwriadu cynnal seminar i'r Bwrdd ar reoli risg a FfSB yn ystod chwarter olaf 2018. | Ar y gweill |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| ar y rhaglen, ei ymglymiad ynddi a'i ymwybyddiaeth ohoni. | Er bod ymwybyddiaeth y Bwrdd o'r FfSB a'i ymglymiad yn natblygiad y Fframwaith wedi cynyddu yn ystod 2018, mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn 'berchen' ar yr FfSB, a'i fod yn fodlon â'i ddatblygiad hyd yma, ei gyfeiriad, a'r modd y caiff y FfSB ei gymhwyso a'i adolygu. | |
| **A8 Rheoli risg**<br>Yn rhan o raglen sicrwydd y bwrdd, dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei chofrestr risg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys risgiau'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, yn ogystal â'r prif risgiau gweithredol. Dylai'r adolygiad gynnwys elfen ôl-weithredol, er mwyn gweld a ellid, ac a ddylid, bod wedi disgrifio risgiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn yn fwy effeithiol ar y gofrestr. | Canfu ein hasesiad fod y gofrestr risg bellach yn cynnwys disgrifiad gwell o'r risg a'r cynnydd wrth liniaru'r risgiau hynny.<br>Rydym wedi cael gwybod bod yr adolygiad ôl-weithredol wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd y Bwrdd Rheoli Gweithredol wedi trafod y canlyniadau, ac nid ydym ni wedi eu gweld. | Ar y gweill |
| **A9 Llywodraethu Gwybodaeth**<br>Ochr yn ochr â chreu ei chofrestr asedau gwybodaeth, dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data er mwyn sicrhau ei bod yn tracio'r modd y mae'n rhannu gwybodaeth bersonol. | Mae cofrestrau asedau gwybodaeth bellach wedi'u sefydlu a gwaith yn parhau i sicrhau bod y gofrestr yn cael ei llenwi a'r holl ddata'n cael eu prosesu. Mae gwaith hefyd ar y gweill i greu cofnod brotocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data. | Ar y gweill |
| **A10 Llywodraethu Gwybodaeth**<br>O ystyried pwysigrwydd RhDDC a'r dirwyon mawr posibl, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys y posibilrwydd o beidio cydymffurfio â'r RhDDC ar ei chofrestr risg. | Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth y risg o beidio cydymffurfio â'r RhDDC at y gofrestr risg gorfforaethol ym mis Hydref 2017, Cafodd cynllun gweithredu RhDDC ei greu a bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen RhDDC yn monitro cynnydd y cynllun hwnnw. Pennwyd arweinwyr adrannol allweddol i fwrw ymlaen â'r gwaith yr oedd angen ei wneud i gydymffurfio â'r RhDDC. Mae'r RhDDC yn eitem sefydlog ar y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.<br>Cytunodd y Bwrdd Rheoli Gweithredol y byddai'r risg yn cael ei gostwng i lefel adrannol ym mis Mehefin 2018 ac wedyn yn cael ei thynnu o'r gofrestr risg gorfforaethol. | Cwblhawyd |

| Argymhelliad | Camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny | Cynnydd |
|---|---|---|
| **A11 Capasiti arweinyddol**<br>O ystyried faint o newid sy'n digwydd o fewn y sefydliad, dylai'r Ymddiriedolaeth weithredu ein hargymhelliad o 2015 ynghylch asesu'r risg nad yw'r capasiti o ran arweinyddiaeth uwch na rheoli newid yn ddigonol, a hynny fel mater brys. | Dechreuodd Tîm y Gweithlu a Datblygu Trefniadol archwiliad graddfa fechan i fapio'r prosiectau strategol y mae uwch reolwyr yn cymryd rhan ynddynt, ac asesu effaith prosiectau trawsnewidiol ar eu rôl graidd. Yn 2018, rhannodd y tîm y canfyddiadau â'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Nodai'r archwiliad fod angen cefnogaeth rheoli prosiect ychwanegol ar uwch reolwyr a rheolwyr gweithredol, a bod y capasiti o ran arweinyddiaeth lefel uwch yn brin. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn datblygu cynlluniau i gynyddu capasiti'r uwch dîm arwain er mwyn sicrhau goruchwyliaeth strategol ddigonol wrth gyflawni cynlluniau gweithredol a datblygu'r rhaglenni trawsnewid. | Cwblhawyd - ond mae camau ar y gweill i ymdrin â bylchau. |

# Atodiad 2

## Ymateb yr Ymddiriedolaeth i argymhellion eleni

Dangosyn 4: ymateb rheolwyr i argymhellion 2018

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu argymhellion blaenorol**<br>A1 Mae amryw o argymhellion a wnaed gennym yn 2017 yn dal heb eu cwblhau. Dylai'r Ymddiriedolaeth weithredu'r argymhellion sy'n weddill yn llawn (fel y nodir yn Atodiad 1). | Mae a wnelo'r camau sy'n weddill â datblygu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a gwybodaeth gyfredol ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fynd rhagddi a'r ddau gam.<br>• Mae Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn cael ei datblygu, sy'n canolbwyntio ar TGC a'r ysbyty canser newydd.<br>• Mae gwefannau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu hadolygu, a phrosiect yn cael ei sefydlu i fudo gwybodaeth i blatfform newydd. | 31 Rhagfyr 2019 | Y Prif Weithredwr |
| **Tryloywder y broses benderfynu**<br>A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y ceir mecanwaith i wirio bod unrhyw eitemau ar yr agenda a ystyrir ar gyfer sesiynau preifat y Bwrdd a sesiynau pwyllgor preifat yn briodol ar gyfer cyfarfodydd preifat (yn hytrach na rhai cyhoeddus). | Bydd templed adroddiadau diwygiedig yn cael ei lunio a'i rannu ar gyfer holl adroddiadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Bydd natur y papur (cyhoeddus neu breifat) wedi'i nodi'n glir ar glawr blaen yr adroddiad, ynghyd â chyfiawnhad clir ar gyfer pob papur y tybir ei bod yn angenrheidiol ei ystyried mewn sesiwn breifat. | 28 Chwefror 2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **Tryloywder busnes y Bwrdd**<br>A3 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau bwrdd yn cael eu darparu i'r cyhoedd ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y bwrdd. | Bydd papurau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw cyn pob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd. | 31 Mawrth 2019 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Tracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol**<br>A4a Dylai'r Ymddiriedolaeth wella'r trefniadau i dracio argymhellion archwilio drwy:<br>– Weithredu traciwr archwilio er mwyn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fonitro cynnydd yn erbyn canfyddiadau ac argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr eraill allanol, fel adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, os nad oes pwyllgorau eraill yn tracio'r rheiny. | Bydd traciwr archwilio yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2019 ar gyfer adolygiadau allanol, gan ymdrin ag argymhellion sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth. | 30 Ebrill 2019 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaethau |
| **Tracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol**<br>A4b Dylai'r Ymddiriedolaeth wella'r trefniadau i dracio argymhellion archwilio drwy:<br>– Weithredu mecanwaith i sicrhau bod y swyddog cyfrifol, ar ôl cwblhau gweithrediadau Archwiliadau Mewnol ac Archwiliadau Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor Archwilio o'r camau a gymerwyd ynghyd â chais i gau'r weithred. | Bydd y broses bresennol o ran rheoli a monitro argymhellion archwilio sy'n weddill yn cael ei hadolygu, a gweithdrefn ychwanegol yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o'r holl gamau a gymerwyd er mwyn cyflawni argymhellion archwilio. | 30 Ebrill 2019 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| **Craffu ar archwiliadau clinigol**<br>A5a Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau, gofal cleifion, a sicrhau gwelliannau:<br>– Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch adolygu a chymeradwyo cynlluniau archwilio clinigol, gan | Bydd y grŵp a'r ffurflen archwilio prosiect newydd yn cynnal asesiad penodol o gynlluniau archwilio clinigol er mwyn sicrhau cysylltiadau rhyngddynt a'r CTCI ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. | 30 Ebrill 2019 | Cyfarwyddwr Meddygol |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| sicrhau bod cynlluniau archwilio clinigol yn ymdrin ag unrhyw risgiau i gyflawni amcanion strategol a risgiau sefydliadol. | | | |
| **Craffu ar archwiliadau clinigol**<br>A5b Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau, gofal cleifion, a sicrhau gwelliannau:<br>– Dylid gwella cynnwys adroddiadau archwilio clinigol gan CGF a GGC fel eu bod yn nodi canfyddiadau archwiliadau'n glir, unrhyw risgiau cysylltiedig a chamau ar gyfer gwella ac unrhyw asesiad dilynol. | Yn sgil adolygiad o adroddiadau ar archwiliadau clinigol, bydd adroddiadau'n ymdrin â risgiau cysylltiedig sy'n tarddu o'r archwiliad, gan nodi gwelliannau clir.<br>Ceir cynllun gweithredu ar gyfer pob Tîm Safle-benodol sy'n nodi argymhellion archwiliadau clinigol, a chytuno ar gamau yn y cyfarfodydd Tîm Safle-benodol. | 30 Medi 2019 | Cyfarwyddwr Meddygol |
| **Craffu ar archwiliadau clinigol**<br>A5c Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau, gofal cleifion, a sicrhau gwelliannau:<br>– Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ei sicrhau ei hun ei fod yn ymdrin â'r canfyddiadau archwilio clinigol. | Bydd yr adroddiad archwilio clinigol yn disgrifio'r modd y mae cynlluniau gweithredu yn ymdrin â'r canfyddiadau. | 30 Medi 2019 | Cyfarwyddwr Meddygol |
| **Craffu ar archwiliadau clinigol**<br>A5d Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth i roi | Dylai'r amcan, y nodau a'r canlyniadau a ddymunir ddiffinio llwyddiant mewn archwiliad clinigol o'r cychwyn cyntaf. Bydd y ffactorau llwyddo hyn yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob archwiliad, ac adroddiad yn cael ei lunio arnynt. Bydd y ffurflenni | 30 Medi 2019 | Cyfarwyddwr Meddygol |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| sicrwydd ynghylch ansawdd gwasanaethau, gofal cleifion, a sicrhau gwelliannau:<br>– Dylai'r Pwyllgor Archwilio esbonio sut y mae'n ei sicrhau ei hun ynghylch effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio clinigol. | prosiect archwilio newydd yn gofyn yn benodol am yr wybodaeth hon.<br>Drwy gysylltu'r cynlluniau archwilio â'r CTCI a risgiau strategol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn gallu asesu ei effeithiolrwydd drwy gyfrannu at liniaru'r risgiau hynny. | | |
| **Rheolaethau mewnol**<br>A6a Bydd parau data 2018-19 y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt. Dylai'r cynllun gynnwys:<br>– Dechrau adolygu'r parau data cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. | Cytunwyd â staff Cyfrifon Taladwy a Chyflogres priodol o PCGC ar gyfrifoldebau i wirio parau credydwyr a chyflogres. Bydd y cyfrifoldebau hyn yn dechrau cyn gynted ag y derbynnir y parau data.<br>Bob mis, bydd Pennaeth Gweithrediadau Ariannol yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r data o fewn y rhaglen we ac yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd, yn ymchwilio i anghysondebau a bod yr wybodaeth yn cael ei mewnbynnu i'r rhaglen fel bo'n ofynnol. | 28 Chwefror 2019 ac yn barhaus ar ôl cael y data yn ôl | Cyflawnir y gwaith gan staff Cyfrifon Taladwy a Chyflogres PCGC, gyda'r Pennaeth Gweithrediadau Ariannol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn monitro hynny. |
| **Rheolaethau mewnol**<br>A6b Bydd parau data 2018-19 y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt. Dylai'r cynllun gynnwys:<br>– Adolygu'r holl barau risg uchel ac, yn ogystal â hynny, cynnal adolygiad o sampl o'r parau data sy'n weddill | Nid oes modd adolygu ac ymchwilio i bob pâr risg uchel. Derbyniodd Felindre 4,400 o barau y llynedd, ac ystyriwyd bod 416 ohonynt yn barau risg uchel. Yn unol â holl sefydliadau eraill y GIG, ac yn yr un modd â'r blynyddoedd cynt, bydd cyfran gychwynnol (rhwng 10 a 20%, yn dibynnu ar nifer y parau risg uchel) o barau yn cael ei hadolygu. Os bydd unrhyw risgiau neu faterion o bwys yn cael eu nodi yn yr adolygiadau hyn, bydd y gyfran o barau risg uchel yn cael ei chynyddu. | 28 Chwefror 2019 ac yn barhaus ar ôl cael y data yn ôl | Cyflawnir y gwaith gan staff Cyfrifon Taladwy a Chyflogres PCGC, gyda'r Pennaeth Gweithrediadau Ariannol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn monitro hynny. |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheolaethau mewnol**<br>A6C Bydd parau data 2018-19 y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt. Dylai'r cynllun gynnwys:<br>– Lle bo parau data wedi'u hadolygu, sicrhau bod rhaglen we'r NFI yn cael ei diweddaru i roi cofnod clir o'r modd yr aethpwyd ati i adolygu'r parau, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny; | Mae staff Cyfrifon Taladwy a Chyflogres PCGC wedi cytuno y bydd hyn yn cael ei gyflawni, a bydd unrhyw ohebiaeth allanol a gynhelir y tu allan i'r system, yn cael ei chofnodi ar y system. | 28 Chwefror 2019 ac yn barhaus ar ôl cael y data yn ôl | Cyflawnir y gwaith gan staff Cyfrifon Taladwy a Chyflogres PCGC, gyda'r Pennaeth Gweithrediadau Ariannol a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn monitro hynny. |
| **Rheolaethau mewnol**<br>A6d Bydd parau data 2018-19 y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Ionawr 2019. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt. Dylai'r cynllun gynnwys:<br>– Sicrhau mecanwaith i wirio ymholiadau a dderbyniwyd gan gyrff eraill, ac ymateb i'r rheiny'n brydlon. | Cyflawnir hyn yn ystod yr adolygiadau misol a ddisgrifiwyd yn y weithred a bennwyd yn erbyn argymhelliad A6a. | 28 Chwefror 2019 ac yn barhaus ar ôl cael y data yn ôl. | Pennaeth Gweithrediadau Ariannol ac Arbenigwr Atal Twyll Lleol |
| **Ymgysylltu â chomisiynwyr** | Drwy Agenda'r cyfarfod Comisiynu Cydweithredol, mae comisiynwyr CGF wedi cael gwybod yr amserlen ar gyfer cwblhau camau allweddol o'r gwaith yn gysylltiedig â'r model contractio newydd, | Cwblhawyd | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A7a Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu model costau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth, dylai sicrhau'r canlynol:<br>– Bod amserlen gytunedig a chyfres o drefniadau wedi'u sefydlu i rannu asesiadau o effaith y model costau newydd â chomisiynwyr yn ystod y cyfnod prawf. | ac yn cael y newyddion diweddaraf am hynny. Mae'r comisiynwyr yn ymwybodol y bydd y model newydd yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r model presennol ar gyfer contractau yn ystod 2019-20, fel bo modd i'r comisiynwyr ddeall yr effaith ar wariant, a'r Ymddiriedolaeth ddeall yr effaith ar incwm.<br>Cafodd cynllun gweithredu cryno ei greu ynghylch datblygu'r model contractio newydd, y gwaith costau yr oedd angen ei gyflawni ar gyfer y model hwnnw a ffurflenni costau Llywodraeth Cymru. | | |
| **Ymgysylltu â chomisiynwyr**<br>A7b Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu model costau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth, dylai sicrhau'r canlynol:<br>– Amserlen gytunedig ar gyfer cymeradwyo'r model costau newydd. | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno â chomisiynwyr CGF, drwy'r cyfarfod Cydgomisiynu, y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal nifer o weithdai yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019. Nod y gweithdai fydd tywys comisiynwyr drwy fanylion y model contractio newydd, a cheisio sicrhau eu bod yn cyd-gytuno arno ac yn rhoi cymeradwyaeth i'r Ymddiriedolaeth gynnal y model newydd ar ffurf gysgodol ochr yn ochr â'r trefniadau contractio presennol.<br>Yn ystod 2019-20, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu â chomisiynwyr CGF i gytuno ar ddyddiad pan fydd y model contractio newydd yn dod yn weithredol, heb fod yn hwyrach na mis Mawrth 2020. | 31 Mawrth 2019 | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cau bylchau o ran capasiti a gallu**<br>A8 Dylai'r Ymddiriedolaeth roi'r flaenoriaeth i adolygu gwasanaethau cymorth yn y ddwy is-adran er mwyn canfod meysydd y gellid eu cyfuno i leihau'r achosion o ail-wneud gwaith, cynyddu dysgu trefniadol a goleuo cynlluniau i ymdrin â bylchau mewn capasiti a gallu. | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi'r flaenoriaeth i adolygu gwasanaethau cymorth yn y ddwy is-adran er mwyn canfod meysydd y gellid eu cyfuno i leihau'r achosion o ail-wneud gwaith, cynyddu dysgu trefniadol a goleuo cynlluniau i ymdrin â bylchau mewn capasiti a gallu. | 30 Medi 2019 | Y Prif Weithredwr |
| **Ymgysylltu â staff**<br>A9 Dylai'r Ymddiriedolaeth roi'r flaenoriaeth i adolygu ei threfniadau ar gyfer rheoli newid ac ymgysylltu â staff er mwyn canfod gwelliannau. Dylai'r adolygiad nodi sut orau i gyfleu'r rhesymau dros drawsnewid, nodi cefnogaeth briodol i'r staff, sicrhau cyfathrebu rheolaidd sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020. | Bydd y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyfredol ar gyfer rhaglen drawsnewid TGC yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru. Bydd cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020 GGC yn cael eu defnyddio fel ffocws ar gyfer dysgu ac yn sail ar gyfer y gwaith hwn. | 30 Mehefin 2019 | Cyfarwyddwr Gweithredol Dylunio Trefniadol a'r Gweithlu |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales